

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cynllun Datblygu Lleol (2016 – 2031)

CYNIGION CYN-ADNEUO – DOGFEN 1 Y STRATEGAETH A FFEFRIR

Mehefin 2017

Miss J Jones
Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ



Clawr a Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein 'Strategaeth a Ffefrir' ar gyfer datblygu Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hyd at 2031.

Yn anad dim, mae'r strategaeth hon yn ymwneud â phobl. Mae pob elfen ohoni'n ceisio gwella ein bywydau a hyrwyddo ein hamcanion lles.

Dyna pam yr aethom ati i ddeall ein cymunedau¹ a, thrwy gyfres o gyfarfodydd gweithgor, rydym wedi ffurfio consensws wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

Mae angen ymdrech ar y cyd i sicrhau bod ein Bwrdeistref Sirol yn denu buddsoddiad ac yn parhau i fod yn ardal ddeniadol sy'n codi'r awydd ar bobl i fyw ac ymfalchïo ynddi. Mae denu a chadw poblogaeth yn dibynnu ar gael pethau eraill yn iawn.

Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n hygyrch ac yn dda ac, yn hyn o beth, rydym yn ymdrechu am welliant parhaus gyda'n partneriaid².

Dros gyfnod y cynllun, rhaid i ni wneud ein gorau glas o'r cyfleoedd a ddaw i'n rhan yn sgil y 'Fargen Ddinesig' ac o fewn cyd-destun Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn benodol, caiff ein cysylltiadau trafnidiaeth eu gwella gan 'Fetro De Cymru', y gwaith o ddeuoli'r A465, a datblygiad y 'Llwybrau Teithio Llesol'.

Er mwyn cyflawni hyn oll, mae gofyn ein bod yn rhoi ffocws ar gyflawniad, gan adeiladu ar y gwelliannau 'arobryn' a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf.

Rwy'n edrych ymlaen at ein dyfodol yn llawn gobaith. Nid yw strategaeth a pholisi ar eu pennau'u hunain yn creu newid, a bydd llwyddiant ein Bwrdeistref Sirol yn y dyfodol yn dibynnu ar ein cydymdrechion.

Hyderaf y byddwch yn cymryd yr amser i ystyried ac i gynnig sylwadau ar y 'Strategaeth a Ffefrir' i ddatblygu Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hyd at 2031. Mae'r manylion ar sut i wneud hyn i'w gweld yn adran 8 y ddogfen hon.

Arweinydd y Cyngor



¹ Deall ein cymunedau. Ymgynghoriad ynghylch yr Asesiad Llesiant: Adroddiad dadansoddi cryno.

² Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful, Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16.



Adran

Rhif y Dudalen

1. Rhagarweiniad	1.
2. Cyd-destun a Materion Allweddol	3.
3. Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI	6.
4. Opsiynau Twf a Gofodol	8.
5. Y Strategaeth a Ffefrir	15.
6. Diagram Allweddol	19.
7. Polisiâu Allweddol i Gyflawni'r Strategaeth a Ffefrir	20.
8. Sut i Gynnig Sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir	41.
9. Rhestr o Derau ac Esboniadau	42.



1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae'r amgylchedd adeiledig yn effeithio ar bob un ohonom. Mae cynllunio, dylunio, rheoli a chynnal yr amgylchedd adeiledig a'r modd y mae'n rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol, yn cael effaith hirdymor ar bobl a chymunedau. Cydnabyddir yn eang fod ansawdd ein bywydau, ein ffyniant, ein hiechyd a'n lles yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan y 'lle' rydym yn byw neu'n gweithio ynddo.
- 1.2 Mae'n bwysig sicrhau bod datblygiadau newydd yn addas ac yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Mae hyn, fodd bynnag, ddim ond yn un rhan o'r ateb; rydym eisoes wedi codi'r rhan helaethaf o'r adeiladau a'r seilweithiau a fydd yn bodoli ymhen 30 mlynedd. Felly, mae rheoli, addasu a defnyddio'r amgylchedd adeiledig presennol o bwys mawr hefyd.
- 1.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu a rheoli'r amgylchedd adeiledig a chynllunio ar ei gyfer. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddatblygu a diweddarau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), sy'n nodi polisiau cynllunio ac yn dyrannu safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli datblygiadau sy'n cynnwys y dasg o brosesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.
- 1.4 Er bod y Cyngor yn chwarae rhan allweddol wrth lunio blaenoriaethau a datblygiadau yn y Fwrdeistref Sirol, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud o fewn y fframwaith a luniwyd gan Bolisi Cynllunio Cymru³ a'r Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig. Ar ben hynny, er mwyn gweithredu cynigion, mae'n rhaid i'r Cyngor gydweithio ag amryw o asiantaethau, cyllidwyr a phenderfynwyr eraill, ac ymateb iddynt. Fel y cyfryw, mae'r amgylchedd adeiledig yn gynnyrch blaenoriaethau a pholisiau cenedlaethol a lleol.
- 1.5 Yn dilyn adolygiad o'r CDLI⁴ diweddaraf a fabwysiadwyd, canfuwyd er bod llawer o agweddau'r Cynllun⁵ yn gweithio'n effeithiol, nid oedd ei strategaeth ddatblygu, sy'n sail iddo, yn cael ei chyflawni'n effeithiol, a bod angen ailystyried lefel a dosbarthiad gofodol yr anghenion twf er mwyn pennu'r dull mwyaf priodol o weithredu hyd at 2031.
- 1.6 Mae strategaeth ddatblygu'r CDLI presennol yn 'Strategaeth Twf Gwell' ac fe'i seiliwyd ar lefel uchelgeisiol o dwf ar gyfer tai a chyflogaeth. O ran tai, nid yw'r gyfradd adeiladu tai wedi cwrdd ag anghenion strategaeth y CDLI ac, o ganlyniad, nid oes gan y Cyngor gyflenwad tir am bum mlynedd ar gyfer tai er bod hynny'n un o ofynion polisi cynllunio allweddol Llywodraeth Cymru.
- 1.7 Yn ychwanegol at hynny, mae newidiadau cyd-destunol, megis cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, diweddarau Polisi Cynllunio Cymru, a newidiadau i'r sylfaen dystiolaeth, yn dangos bod angen diwygio rhai polisiau a dyraniadau penodol o fewn y CDLI, ac y dylid hefyd ailystyried Gweledigaeth y CDLI ynghyd â'i Nodau ac Amcanion.
- 1.8 Yn dilyn argymhellion yr Adroddiad Adolygol, ym mis Awst 2016 daeth y Cyngor i 'Gytundeb Darparu'⁶ â Llywodraeth Cymru ar gyfer paratoi CDLI newydd.
- 1.9 Cytuno ar y Strategaeth a Ffefrir yw'r cam ffurfiol cyntaf wrth baratoi CDLI newydd. Mae'n rhoi cyfeiriad ar gyfer datblygu a defnyddio tir hyd at 2031 a thrwy hynny, mae'n cwrdd â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gyfrannu at welliant yn lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy ddatblygiadau cynaliadwy.

³ Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, 2016).

⁴ Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006-2021, Adroddiad Adolygu Ebrill 2016.

⁵ Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006-2021.

⁶ Cynllun Datblygu Lleol Newydd Merthyr Tudful 2016 – 2031, Cytundeb Cyflawni, Awst 2016.



1.10 Dros dri mis tan y dyddiad cau ar ddechrau mis Rhagfyr 2016, cafodd pobl gyfle i enwebu safleoedd i'w gwarchod neu'u datblygu yn y CDLI. Gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw am eu sylwadau ar 'Adroddiad Cwmpasu Sylfaenol' ac fe'u defnyddiwyd i lywio methodoleg yr 'Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynol'⁷, sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon.

1.11 Fel cymorth i ganfod materion allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd, defnyddiwyd dull integredig tuag at gynnwys y gymuned, sydd hefyd yn llywio 'Cynllun Llesiant Lleol Cwm Taf'⁸. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn sgil hynny'n dangos cymhlethdod y materion dan sylw, ac yn nodi themâu sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd.

1.12 Mae cyfres o weithgorau llywiol a phynciol sy'n ymwneud yn neilltuol â'r CDLI wedi'u cynnal er mwyn datblygu ac ystyried ei faterion penodol, ei amcanion, a'i opsiynau twf a gofodol. Mae adrannau 2, 3 a 4 yn ystyried y materion hyn, ynghyd â'r Weledigaeth ar gyfer y Strategaeth a Ffeirir, ac yn rhoi rhesymau dros ddethol y lefel ddewisol o dwf a dosbarthiad gofodol ar gyfer y datblygiad.

1.13 Mae Adrannau 5, 6 a 7 yn crynhoi ac yn gosod allan y Strategaeth a Ffeirir ar gyfer datblygu Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hyd at 2031.

1.14 Mae'n bwysig bod yr Adroddiad hwn ar y Strategaeth a Ffeirir yn cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd ac ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru⁹ a Nodiadau Cyngor Technegol¹⁰. Ei nod yw rhoi sail gadarn i ddatblygu'r 'CDLI Adneuo' a chreu dyfodol cynaliadwy i'r Fwrdeistref Sirol hyd at 2031.

1.15 At ei gilydd, mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i faterion a nodwyd ac a dystiwyd, a sut y bydd yn diogelu ac yn parchu'r amgylchedd. Mae'n adlewyrchu'r ystyriaeth lawn a gofalus o'r holl ffactorau perthnasol a nodwyd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynol, y gwaith helaeth a wnaed wrth adeiladu sylfaen o dystiolaeth, a'r materion sy'n deillio o gysylltu a sgwrsio ag ystod eang o gyrff ac unigolion.

1.16 Mae cyhoeddi'r ddogfen hon yn fuan yn y broses o baratoi'r CDLI newydd yn rhoi cyfle i bawb gynnig eu sylwadau'n gynnar – mae hyn yn bwysig i'n helpu ni i sicrhau bod y 'Cynllun Datblygu Lleol Adneuo (CDLI)' yn gadarn. Mae Adran 8 yn esbonio sut mae cyflwyno sylwadau.

1.17 Yn y pen draw, mae'r orchwylog ymeradwyo'r cynllun yn gorwedd gyda'r Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn penderfynu a yw'r cynllun yn addas i'r diben trwy ei asesu yn erbyn y tri phawf cadernid canlynol¹¹:

1. A yw'r cynllun yn addas?
2. A yw'r cynllun yn briodol?
3. A fydd y cynllun yn cyflawni'i addewid?

1.18 Unwaith i'r CDLI gael ei fabwysiadu, bydd yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu statudol ar gyfer yr ardal, ochr yn ochr â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol (2006-2021), a fabwysiadwyd ym mis Mai 2011.



⁷ Cynllun Datblygu Lleol Newydd Merthyr Tudful 2016 – 2031, Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynol 2017.

⁸ Deall ein cymunedau. Ymgynghoriad ynghylch yr Asesiad Llesiant: Adroddiad dadansoddi cryno.

⁹ Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016).

¹⁰ Nodiadau Cyngor Technegol 1 – 24 (ac eithrio 9, 17 a 22 nad ydynt bellach mewn grym).

¹¹ Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, Awst 2015).

2. Cyd-destun a Materion Allweddol

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o gyd-destun y Fwrdeistref Sirol ac yn nodi rhai o'r materion allweddol sydd wedi llywio'r Strategaeth a Ffefrir.

Cyd-destun

2.2 Lleolwyd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ym Mlaenau'r Cymoedd, o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a dyma'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 59,325¹² ac ardal o oddeutu 11,000 hectar gyda 2,300 ohonynt yn gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

2.3 Mae'r Awdurdodau Lleol cyfagos yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (i'r gorllewin a'r de-orllewin), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (i'r dwyrain a'r de-ddwyrain) a Chyngor Sir Powys (i'r gogledd).

2.4 Mae'r A470 (o'r gogledd i'r de) a'r A465 (o'r dwyrain i'r gorllewin) yn cwrdd i'r gogledd-orllewin o Ferthyr Tudful a nhw yw prif ffyrdd y Fwrdeistref Sirol. Cânt eu cysylltu ag ochr ddwyreiniol Merthyr Tudful gan yr A4060. Mae rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd yn rhedeg gwasanaeth bob hanner awr o Ferthyr Tudful i Gaerdydd.

2.5 Mae gan y Fwrdeistref Sirol ddaeareg gyfoethog a chymysgedd o gynefinoedd arbennig sydd wedi'u dylanwadu gan ddiwydiannau'r oes o'r blaen. Ar ôl bod y ganolfan fwyaf cynhyrchol yn y byd am greu haearn, mae gan y Fwrdeistref Sirol sylwedd dwys i'w hanes a'i diwylliant.


2.6 Saif Merthyr Tudful, sef y brif dref, tua 20 milltir i'r gogledd o Gaerdydd ac mae'n cynnwys cymunedau Abercanaid, Heol Aberhonddu, Cefn Coed, Dowlais, Galon Uchaf, Heolgerrig, Georgetown, Gurnos, Pant, Pentrebach, Penydarren, Heol Abertawe, y Dref, Trefechan ac Ynys Fach. Gyda phoblogaeth o tua 43,000, mae'n brif ganolfan manwerthu a gwasanaethu ym Mlaenau'r Cymoedd ac yn cyflawni rôl strategol allweddol (gweler Map 1, drosodd).

2.7 Yr aneddiadau eraill yn ardal y cynllun yw Aberfan, Bedlinog, Ynysowen, Trelewis, Troedryhiw, Treharris (sy'n cynnwys cymuned Edwardsville), a Mynwent y Crynwyr. Mae gan yr aneddiadau hyn boblogaeth gyfunol o tua 16,000.



¹² Amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl arferol fel y saif ar 30 Mehefin 2015. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Map 1: Merthyr Tudful, y prif anheddiad



Materion Allweddol

2.8 Mynegir ystod eang o wybodaeth gymdeithasol, ddiwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol sy'n eistedd ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae'r wybodaeth dan sylw, ynghyd â negeseuon y cyfranogwyr, wedi helpu i nodi'r materion allweddol y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol fynd i'r afael â nhw. Caiff y rhain eu crynhoi yn Ffigur 1:

Ffigur 1: Crynodeb o'r materion allweddol y dylai'r CDLI fynd i'r afael â nhw

- ◆ Disgwylir lleihad yn y boblogaeth o 2024, gyda phobl o oedran gweithio yn symud i rannau eraill o'r DU.
- ◆ Alinio gwasanaethau a chyfleusterau (megis addysg, iechyd a hamdden) â newidiadau demograffig.
- ◆ Effaith datblygiad ar hunaniaeth, nodweddion ac amwynderau'r gymuned.
- ◆ Mae lefelau amddifadedd yn uwch yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol; mae mynediad i fannau agored o ansawdd digonol yn amrywio ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- ◆ Yr angen am fwy o dai cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai ar gyfer pobl hŷn.
- ◆ Ansawdd y tai presennol a'u heffeithlonrwydd ynni.
- ◆ Ychydig iawn o ddatblygiadau newydd sydd wedi'u hadeiladu ar dir cyflogaeth dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae nifer yr unedau masnachol gwag yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- ◆ Mae nifer y bobl sy'n cerdded neu'n seiclo ar gyfer teithiau o lai na 5km yn isel. Nid yw llwybrau cerdded a seiclo wedi'u cysylltu yn dda ac mae teithio o'r dwyrain i'r gorllewin yn anodd.
- ◆ Cynigir bod gorsaf fysiau ganolog newydd yn cael ei sefydlu. Bydd prosiect Metro De Cymru yn gwella'r mynediad i Gaerdydd.

- ◆ Y defnydd o ynni cartref yw prif achos allyriadau nwyon tŷ gwydr lleol. Mae cyllidebu carbon yn sicr o yrru'r galw am ynni adnewyddadwy a charbon isel.
- ◆ Mae'r newid yn yr hinsawdd yn rhoi pwysau ar rywogaethau, cynefinoedd ac adnoddau dŵr. Mae'r defnydd o danwydd trafndiaeth yn achos eilaidd o allyriadau nwyon tŷ gwydr lleol; mae Bryn Twynirodyn wedi'i glustnodi'n Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA).
- ◆ Mae yna amrywiaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd dan fygythiad. Nid yw rhai coridorau gwyrdd a mannau gwyrdd yn cysylltu â'i gilydd.
- ◆ Mae angen gwella dŵr daear, dŵr wyneb a chyrff dŵr yn arbennig Nant Morlais, o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd y dŵr.
- ◆ Mae rhannau o Ganol y Dref wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd.
- ◆ Rhaid gwarchod yn sensitif y safleoedd treftadaeth cenedlaethol a lleol hynny a seiliwyd ar yr hen ddiwydiannau haearn a glo.
- ◆ Mae'r adnoddau mwynau a leolir y tu allan i aneddiadau yn cael eu diogelu. Mae cynllun adfer tir Ffos-y-Frân yn mynd rhagddo ac mae rhai cronfeydd mwynau eraill yn dal i feddu ar ganiatâd. Mae rhwydwaith da o gyfleusterau gwastraff yn bodoli.
- ◆ Ar lai na 10%, mae nifer y bobl sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn is na chyfartaledd Cymru.
- ◆ Mae angen diogelu tirweddau o ansawdd uchel, golygfeydd amlwg a ffiniau caeau traddodiadol.



3. Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol

3.1 Mae gweledigaeth ac amcanion y CDLI yn rhoi cyd-destun trosfwaol i'r cynllun, ac mae'n dangos sut y gellir cydbwysu ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gyflawni datblygiad cynaliadwy ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hyd at 2031.

3.2 Mae Cynlluniau Llesiant Lleol yn darparu'r fframwaith strategol trosfwaol ar gyfer holl gynlluniau a strategaethau'r awdurdodau lleol, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd Cynllun Llesiant Lleol Cwm Taf yn cael ei gytuno mewn pryd ar gyfer y CDLI Adneuo. Yn y cyfamser, mae gweithgorau a grwpiau llywio'r CDLI wedi cwrrd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 ac wedi bod yn sail i'r weledigaeth a nodir isod:

Gweledigaeth: Cryfhau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, annog twf cynaliadwy yn y boblogaeth a bod yn lle i ymfalchïo ynddo, lle mae:

- pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i wireddu eu dyheadau;
- pobl yn byw, yn gweithio ac yn mwynhau bywydau diogel, iach a chyflawn; a
- pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd.

3.3 Cyn y Cynllun Llesiant Lleol, mae'r Cyngor wedi pennu'i amcanion Llesiant Lleol (gweler isod) ac mae'r rhain yn cael eu hesbonio yn Natganiad Llesiant y Cyngor¹³.

Amcanion Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

- Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd.
- Mae plant a phobl ifanc wedi'u harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

- Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol.
- Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu.
- Cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad.
- Cymunedau'n diogelu, yn datblygu ac yn hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol.
- Datblygu cymunedau diogel a chynhwysol.
- Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl.
- Pobl yn byw'n annibynnol.

3.4 Mae'n bwysig cydnabod na all y CDLI gyflawni pob un o'r deilliannau hyn. Mae llawer o faterion yn ymestyn y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol 'cynllunio defnydd tir'. Serch hynny, mae'r CDLI yn cyfrannu at greu'r amodau cywir i gefnogi'u cyflawniad.

Amcanion y CDLI

3.5 Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, cefnogi'r amcanion Llesiant Lleol a mynd i'r afael â materion allweddol, cafodd amcanion y CDLI eu nodi ar ôl rhoi sylw i'r dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg ac i Bolisi Cynllunio Cymru (gweler Ffigur 2). Ystyriwyd y rhain gan weithgorau a grwpiau llywio'r CDLI a gyfarfu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 pryd y daethpwyd i gonsensws eang fod amcanion y CDLI yn rhai rhesymol.

3.6 Mae amcanion y CDLI wedi'u grwpio yn ôl eu cyfraniad at wella Llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yna, ar ôl iddynt gael eu cloriannu yn erbyn amcanion cynaliadwyedd yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol, cânt eu hystyried i ddarparu fframwaith priodol ar gyfer datblygu polisïau a chynigion cynllunio manylach, fel y gellid cyflawni'r Strategaeth a Ffeirir yn unol â gweledigaeth y Cyngor.

¹³ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Datganiad Llesiant Lleol (2017).

Ffigur 2: Amcanion y CDLI:

Gwella llesiant cymdeithasol:

CDLI Amcan 1	Annog y boblogaeth i dyfu ar lefel a dosbarthiad sy'n gynaliadwy.
CDLI Amcan 2	Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
CDLI Amcan 3	Hyrwyddo cyflenwad amrywiol o dai ar dir addas a ddatblygwyd yn flaenorol.
CDLI Amcan 4:	Sicrhau bod darparu isadeiledd a mannau agored yn sail i adfywio cymunedau.
CDLI Amcan 5:	Hyrwyddo mesurau dylunio a chefnogi rhagorol, cynaliadwy a chynhwysol i liniaru effeithiau disgwylidig y newid yn yr hinsawdd.
CDLI Amcan 6:	Cefnogi system gludiant integredig, hyrwyddo teithio llesol a sicrhau bod datblygiadau newydd yn hygyrch o ran cerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus.
CDLI Amcan 7:	Cefnogi'r cyfleusterau cymunedol presennol ynghyd â datblygiadau addas dan arweiniad y gymuned.

Gwella llesiant diwylliannol:

CDLI Amcan 8:	Diogelu, gwella a hyrwyddo treftadaeth ac asedau diwylliannol.
---------------	--

Gwella llesiant amgylcheddol:

CDLI Amcan 9:	Gwella cynefinoedd sy'n cyfrannu at gydnerthedd a chysylltedd yr ecosystem ac sy'n cynnal rhywogaethau a warchodir.
CDLI Amcan 10:	Diogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad y dirwedd a chefn gwlad.

Gwella llesiant economaidd:

CDLI Amcan 11:	Darparu a diogelu tir priodol ar gyfer datblygu'r economi a sgiliau.
CDLI Amcan 12:	Cryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig.
CDLI Amcan 13:	Datblygu trefi a chanolfannau lleol fel mannau hygyrch, deniadol, hyfyw a bywiog.
CDLI Amcan 14:	Cefnogi datblygiadau addas ar gyfer twristiaeth, hamdden ac adloniant, ac annog y diwydiant twristiaeth i weithredu trwy gydol y flwyddyn.
CDLI Amcan 15:	Hyrwyddo ynni adnewyddadwy a charbon isel.
CDLI Amcan 16:	Sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau.
CDLI Amcan 17:	Hyrwyddo defnydd effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau a sicrhau rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff.



4. Opsiynau Twf a Gofodol

4.1 Un elfen annatod o baratoi cynllun yw nodi ac ystyried dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer twf, a elwir hefyd yn 'opsiynau strategol'. Isod, ceir crynodeb o'r opsiynau ar gyfer twf a dosbarthiad gofodol, ynghyd â'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau dewisol. Ceir eglurhad llawn yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol.

Opsiynau Twf

4.2 Mae tueddiadau poblogaeth arwyddocaol wedi dod i'r amlwg ers mabwysiadu'r CDLI presennol, ac o'r herwydd roedd rhaid ailystyried ei Strategaeth Twf Gwell. Cafodd amryw o amcanestyniadau poblogaeth eu hasesu trwy 'Popgroup', a dewiswyd rhoi ystyriaeth i'r 'Opsiynau Twf' uchel, canolig ac isel (gweler Ffigur 3)¹⁴.

Ffigur 3: Opsiynau Twf

Opsiwn twf	Crynodeb o'r Dadansoddiad
Opsiwn twf uchel Parhad y strategaeth bresennol	Byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol (ymron i 15 %) yn y boblogaeth i tua 69,000 erbyn 2031 gan greu'r galw am dros 3,000 o anheddau. Byddai hyn yn debygol o roi pwysau sylweddol ar y seilwaith materol a chymdeithasol, a byddai angen adeiladu o leiaf 40 % mwy o dai na'r lefelau presennol gan ennyn y cwestiwn a yw hyn yn gyraeddadwy. Ar ben hynny, byddai hyn yn gweld: • cynnydd sylweddol yn nifer y plant oed ysgol gan arwain at yr angen am raglen adeiladu/ehangu ysgolion arwyddocaol. • y nifer uchaf o bobl hŷn yn byw yn y Fwrdeistref Sirol (o'i gymharu â'r opsiynau twf canolig ac isel). Bydd paratoi ar gyfer y ddemograffig hon yn fater allweddol i ddarparwyr gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. • cyfran llawer mwy o oedolion oed gweithio yn cael ei chadw (mae colli'r ddemograffig hon wedi bod yn fater allweddol yn y Fwrdeistref Sirol ers degawdau). Bydd hyn yn cynyddu'r pwysigrwydd o leoli seilwaith materol a chyfleoedd gwaith yn briodol, ac yn sicrhau bod y rhwydwaith cludiant cyhoeddus yn cysylltu Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful â gweddill y Ddeddyrain mewn modd effeithiol. • y diffygion o ran cael mynediad i fannau agored da yn gwaethygu.

¹⁴ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Gofynion Poblogaeth a Thai, Papur Cefndir 2017.

Opsiwn twf canolig Twf poblogaeth cynaliadwy	Byddai hyn yn arwain at gynydd yn y boblogaeth (o tua 8 %) i bron 64,400 erbyn 2031, gan greu'r galw am 2,250 o anheddau. Byddai hyn yn gofyn am adeiladu tai ar lefel sydd ond ychydig yn uwch na'r cyfraddau adeiladu hanesyddol. Hefyd, byddai hyn yn gweld: • cynnydd yn nifer y plant oed ysgol ar lefel sy'n haws i'w diwallu heb yr angen am ysgolion newydd. • cynnydd sylweddol yng nghyfran y bobl hŷn sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd cwrdd ag anghenion y ddemograffig hon yn fater allweddol i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. • cyfran lai o'r boblogaeth oed gweithio yn symud i fannau eraill o'r DU nag a welir ar hyn o bryd, gan gynyddu'r pwysigrwydd o leoli seilwaith materol a chyfleoedd gwaith yn gywir, a sicrhau bod yna rwydwaith cludiant cyhoeddus effeithiol yn cysylltu Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful â gweddill de-ddwyrain Cymru. • bod datblygiad ar y lefel hon yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar ddarparu mannau agored ar draws y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, dylai fod modd cynllunio datblygiadau adeiledig ar y cyd â gwelliannau i ansawdd a hygyrchedd yr ardaloedd hynny lle ceir mannau agored o bwys.
Opsiwn twf isel Cynllunio ar gyfer gostyngiad yn y boblogaeth	Byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth (o lai nag 1 %) i 59,000 erbyn 2031, gan greu'r galw am tua 300 o anheddau. Byddai dilyn yr opsiwn twf isel yn arwain at strategaeth i reoli gostyngiad yn y boblogaeth. Dros gyfnod y cynllun, byddai rhywfaint o dwf bach yn y boblogaeth tan ganol y 2020au, cyn syrthio'n ôl i'r gostyngiad a welwyd am ddegawdau tan ganol y 2000au. Byddai'r opsiwn hwn yn creu'r galw am lefel o tua 80 % yn is na'r cyfraddau adeiladu tai hanesyddol. Hefyd, byddai hyn yn gweld: • cwmp y niferoedd plant oed ysgol gan arwain at bwysau i resymoli ysgolion ymhellach. • cynnydd yng nghyfran y bobl hŷn sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd diwallu anghenion y ddemograffig hon yn fater allweddol i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. • parhad yn nifer y bobl o oedran gweithio sy'n symud i rannau eraill o'r DU. • y diffygion o ran cael mynediad i fannau agored da yn gwaethygu.



Yr opsiwn twf a ffefrir a'r rhesymau dros ei ddewis

- 4.3 Yn y grwpiau llywio a'r gweithgorau CDLI a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017, y farn gyffredin oedd bod yr opsiynau twf dan sylw'n rhai rhesymol ac y dylid ffafrio'r opsiwn twf canolog.
- 4.4 Mae cynnydd yn y boblogaeth o tua 8% i 64,400 erbyn 2031, gan greu'r galw am 2,250 o anheddau dros gyfnod y cynllun, yn ymddangos fel petai'n lefel twf y gellir ei rheoli'n gynaliadwy a'i hystyried fel un uchelgeisiol a realistig.
- 4.5 Mae'r lefel twf hon yn dangos uchelgais gan ei bod yn mynd i'r afael â'r gostyngiad hirdymor yn y boblogaeth ac yn gweld mwy o bobl oed gweithio yn aros yn y Fwrdeistref Sirol. At hynny, fe'i hystyrir fel twf realistig a chyraeddadwy gan fod y lefel adeiladu tai yn cydymffurfio'n fras â'r cyfraddau adeiladu hanesyddol. Ar ben hynny, mae'n galluogi twf economaidd cynaliadwy yn yr ardal yn unol â 'Strategaeth Twf Economaidd' ddrafft y Cyngor.
- 4.6 Mae'r opsiwn yn gofyn am lawer llai o dai na'r opsiwn twf uchel (sy'n lefel nad yw'n cael ei chyflawni), ond cryn dipyn yn fwy na chyfanswm yr opsiwn twf isel sef 300 o anheddau.
- 4.7 Er y gall yr opsiwn twf isel gynorthwyo i leddfu'r pwysau ar ddarparu isadeiledd a gwasanaeth, mae hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd o wella'r cyfleusterau gan fod lefel yr ariannu y gall awdurdodau lleol a sefydliadau eraill eu denu yn aml yn gysylltiedig â phoblogaeth. Yn yr un modd, efallai y ceir lleihad yng nghwmpas y gwelliannau a ddaw yn sgil 'lles cynllunio', yn enwedig mewn perthynas â chytundebau

ASC ac Adran 106. Fel y cyfryw, ni fyddai mynd ar drywydd yr opsiwn twf isel yn dangos llawer o uchelgais, a byddai'n cyfyngu ar dwf economaidd yr ardal, ac ni fyddai ychwaith yn cyd-fynd â chynlluniau, rhaglenni a strategaethau eraill gan gynnwys Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd¹⁵.

- 4.8 Mae pum Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB) wedi'u cynhyrchu ers mabwysiadu'r CDLI presennol. Ochr yn ochr ag Adroddiad Adolygu'r CDLI (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016), mae'r rhain yn amlygu'n eglur nad yw'r opsiwn twf uchel yn cael ei gyflawni. Dengys y 'data cwblhau hanesyddol' mai dim ond dwy flynedd (2008 a 2010) a gwblhaodd mwy na 200 o anheddau, sef y gyfradd sy'n ofynnol i gwrdd â'r opsiwn twf uchel.

Opsiynau Gofodol

- 4.9 Daeth opsiynau rhesymol eraill i law ar gyfer dosbarthu twf pan gyflwynwyd y 'safleoedd ymgeisiol'¹⁶ ym mis Rhagfyr 2017. Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau pellach yn y grwpiau llywio a'r gweithgorau a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr a mis Mawrth 2017, ac felly dewiswyd tri opsiwn i'w hystyried yn fanwl. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol yn cynnwys ystyriaeth lawn o'r opsiynau ynghyd â'u goblygiadau cynaliadwyedd posibl. Ceir crynodeb ohonynt yn Ffigurau 4, 5 a 6 isod.
- 4.10 Mae'r opsiynau yn adlewyrchu'r ffaith fod gan Ferthyr Tudful y rhagolygon gorau ar gyfer twf cynaliadwy ac y bydd y rhan fwyaf o'r datblygiadau'n canolbwyntio ar yr ardal hon. Mae hyn yn gyson â Chynllun Gofodol Cymru¹⁷ a 'Syniadau Blaengar - Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020'¹⁸. Mae pob un yn nodi Merthyr Tudful fel un o'r 'Prif Aneddiadau Allweddol' yn Is-ranbarth Blaenau'r Cymoedd.

¹⁵ http://cardiffcapitalregioncitydeal.wales/Cardiff_Capital_Region_City_Deal.pdf

¹⁶ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol 2017.

¹⁷ Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol.

¹⁸ Syniadau Blaengar – Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020 (2006).

Ffigur 4: Estyniad trefol ym Merthyr Tudful (SoDdGA Cwm Glo Glyndyrys) a safleoedd bach eraill.


Opsiwn Gofodol

Estyniad trefol ym Merthyr Tudful (SoDdGA Cwm Glo Glyndyrys) a safleoedd bach eraill.

Byddai rhan fwyaf y tai (hyd at 1500 o anheddau) yn cael eu lleoli ar estyniad trefol yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cwm Glo a Glyndyrys, ynghyd â datblygiadau cysylltiedig sy'n ymwneud â hamdden, manwerthu a thwristiaeth.

Crynodeb o'r Dadansoddiad

Mae'r opsiwn 'estyniad trefol' yn sgorio'n gadarnhaol ar gyfer amcanion sy'n ymwneud â thwf yn y boblogaeth a thai; fodd bynnag, ceir cyfyngiadau sylfaenol o ran bioamrywiaeth, pridd, tirwedd a threftadaeth. Mae dewis SoDdGA Cwm glo a Glyndyrys fel elfen allweddol o strategaeth y CDLI ar hyn o bryd yn cael ei ystyried yn amhrifodol o ystyried y cyfyngiadau sylfaenol, hanes cynllunio'r tir dan sylw, a'r ffaith fod opsiynau gofodol eraill ar gael.



Ffigur 5: Ardal Adfywio Strategol 'Hoover' a safleoedd bach eraill.


Opsiwn Gofodol

'Ardal Adfywio Strategol Hoover' ym Merthyr Tudful a safleoedd bach eraill (Map 2).

Bydd cyfran sylweddol o dai (hyd at 1000 o anheddau) yn cael eu lleoli ar safle adfywio strategol 'Hoover' (Abercanaid/Pentrebach) ac fe'i defnyddir hefyd i hyrwyddo cyflogaeth a ffurfio rhan allweddol o'r cynigion ar gyfer 'Metro De Cymru'.


Crynodeb o'r Dadansoddiad

Bydd yr opsiwn a gynigir gan 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar dwf yn y boblogaeth, datblygiad economaidd, trafnidiaeth a seilwaith, ac mae hefyd yn sgorio'n gadarnhaol o ran tai, iechyd cymunedau a phobl, a thir llwyd. Mae effaith negyddol bosibl wedi cael ei nodi mewn perthynas â'r amgylchedd dŵr; fodd bynnag, mae lefel a dosbarthiad y datblygiadau newydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o liniaru/digolledu.



Ffigur 6: Gwasgaru safleoedd bach ar draws y Fwrdeistref Sirol (parhad strategaeth bresennol y CDLI).

Opsiwn Gofodol	Crynodeb o'r Dadansoddiad
Gwasgaru safleoedd bach ar draws y Fwrdeistref Sirol (parhau â strategaeth bresennol y CDLI). Bydd tai yn cael eu lleoli ar nifer o safleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol (tua 50-150 o anheddau ar bob safle). Caiff y rhan fwyaf o'r rhain eu lleoli yn y prif anheddiad sef Merthyr Tudful.	Mae'r opsiwn 'safleoedd gwasgaredig' yn sgorio'n dda mewn perthynas â'r union faterion a geir yn opsiwn yr 'Ardal Adfywio Strategol', er nad i'r un graddau. Unwaith eto, nodwyd ffactor negyddol posibl mewn perthynas â'r amgylchedd dŵr; fodd bynnag, mae lefel a dosbarthiad y datblygiadau newydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o liniaru/digolledu.



Yr opsiwn gofodol a ffefrir a'r rhesymau dros ei ddewis

4.11 Yn y grwpiau llywio a'r gweithgorau CDLI a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017, y farn gyffredin oedd bod yr opsiynau gofodol dan sylw'n rhai rhesymol ac mai 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' a safleoedd bach eraill ddylai fod yr opsiwn gofodol a ffefrir ar gyfer cyflawni twf cynaliadwy ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

4.12 Wrth ddadansoddi'r dewisiadau gofodol, mae'n amlwg nad yw'r opsiwn 'estyniad trefol' yn addas i'w ddatblygu oherwydd y cyfyngiadau sylfaenol; fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau rhwng y ddau opsiwn sydd ar ôl yn fwy cynnil, gan y byddai'r ddau o bosibl yn opsiynau gofodol addas i sicrhau twf poblogaeth cynaliadwy. Y gwahaniaeth allweddol rhwng y ddau opsiwn yw cyflwyno 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' yn Abercanaid/Pentrebach a fyddai'n ffurfio rhan annatod o strategaeth y CDLI, ac yn cyfrannu tai, tir cyflogaeth a seilwaith trafnidiaeth.



4.13 Yn ei hanfod, mae'r opsiwn 'safleoedd gwasgaredig' yn barhad o strategaeth ofodol y CDLI presennol a byddai'n debygol o sicrhau twf mewn lleoliadau cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn yn cyflwyno'r un cyfleoedd ag Ardal Adfywio Strategol Hoover' a fydd yn manteisio ar 'Fetro De Cymru' ac yn adfywio'r hen safle diwydiannol eiconig sydd wedi bod, i raddau helaeth, yn wag am ymron i 10 mlynedd.

Parthau Twf

4.14 Mae'r CDLI presennol yn nodi tri Pharth Twf: Prif (Merthyr Tudful), Eilaidd (aneddiadau isaf y cwm sef Treharris a Threlewis) ac Arall (cymunedau canol y cwm).

4.15 Mae cefnogi twf cynaliadwy yn y boblogaeth, ynghyd â'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r dyraniadau presennol yn y cwm isaf wedi'u cyflawni, yn golygu na ellir bellach cyfiawnhau'r gwahaniaethiad rhwng ardaloedd twf Eilaidd ac Arall, ac felly, mae'r strategaeth wedi'u cyfuno fel 'Ardal Twf Arall'. Mae'r archwiliad a gynhaliwyd ar gyfer cyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol¹⁹ yn cefnogi'r dull hwn ar ôl dod i'r casgliad nad oedd ASC yn ddichonadwy yn y Prif Ardaloedd Twf na'r Ardaloedd Twf Arall.

¹⁹ Adroddiad ar archwiliad o ddrafft yr Ardoll Seilwaith Cymunedol - Rhestr Codi Tâl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Yr Arolygiaeth Gynllunio (Chwefror 2014).

5. Y Strategaeth a Ffefrir

- 5.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r strategaeth a ffefrir, ac mae'r polisiâu allweddol a ddefnyddir i gyflawni hynny i'w gweld yn llawn yn adran 7. Mae'r elfennau pwysig i'w gweld yn niagram allweddol adran 6.
- 5.2 Mae'r strategaeth a ffefrir yn cynnig opsiynau twf a gofodol sy'n ceisio mynd i'r afael â gostyngiad rhagamcanol yn y boblogaeth trwy: annog twf yn y boblogaeth sy'n gynaliadwy, cyfeirio datblygiad yn bennaf i Ferthyr Tudful, a chefnogi datblygiadau yn ardal adfywio strategol 'Hoover' yn Abercanaid/Pentrebach a safleoedd bach eraill.
- 5.3 Yn y cyd-destun dan sylw, caiff y Fwrdeistref Sirol ei chydabod fel y brif ganolfan manwerthu a gwasanaethu ym Mlaenau'r Cymoedd, gyda chysylltiadau da i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae hynny'n elfen allweddol o'r strategaeth, felly hefyd y dasg o ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy i gysylltu pobl â chyfleoedd am swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau hamdden yn lleol ac yn rhanbarthol, a bydd hynny'n cynnwys Metro De Cymru a'r Llwybrau Teithio Llesol.
- 5.4 Er mwyn helpu i greu lleoedd sy'n llwyr barchu eu cyd-destun lleol ac sy'n cael eu hintegreiddio'n llwyddiannus ag ardaloedd cyfagos, bydd egwyddorion dylunio da yn cael eu hyrwyddo.

Gwella lles cymdeithasol (Amcanion 1-7 y CDLI).

- 5.5 Mae'r strategaeth yn ceisio hwyluso twf cynaliadwy ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol o'r amcangyfrif ar gyfer canol 2015 o 59,324²⁰ i oddeutu 64,000 erbyn 2031 (cynnydd o tua 8%). Mae'r lefel hon o dwf yn uwch na'r amcanestyniad poblogaeth a

wnaed gan Lywodraeth Cymru ac a seiliwyd ar 2014, sef y man cychwyn ar gyfer pennu lefelau twf y CDLIau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth, ar ffurf cyfraddau adeiladu'r gorffennol, yn dangos y gellir cyflawni'r lefel hon o dwf yn y boblogaeth²¹.

- 5.6 Bydd hyn yn gweld llai o bobl oed gweithio yn gadael y Fwrdeistref Sirol gan gydbwysu'r cynnydd yn y galw am gyfleusterau a gwasanaethau lleol gyda chapasiti'r seilwaith cymunedol a chymdeithasol i'w diwallu. Mae hefyd o gymorth i gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Fwrdeistref Sirol.
- 5.7 Er mwyn hwyluso'r twf cynaliadwy ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol, rydym wedi amcangyfrif bod angen adeiladu 2,250 o gartrefi newydd erbyn 2031. Er mwyn gwireddu hyn, byddir yn sicrhau darpariaeth wrth gefn o tua 25% i ganiatáu hyblygrwydd os na chaiff rhai o'r safleoedd a ddyrannwyd eu datblygu yn ôl y disgwyl. Mae hyn yn cael ei ystyried fel dull rhesymol o weithredu oherwydd bod y strategaeth yn dibynnu'n bennaf ar ddatblygu safleoedd tir llwyd.
- 5.8 Bydd y cartrefi hyn yn rhoi amrywiaeth a dewis o dai newydd ar draws y Fwrdeistref Sirol, a bydd anheddau o wahanol faint a deiliadaeth yn cael eu cefnogi i gwrdd ag amrediad o anghenion newydd. Mae'r dosbarthiad yn cynnal cyfran uwch o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol o fewn y Brif Ardal Twf (Merthyr Tudful), a dyma lle y ceir y mynediad gorau i swyddi, gwasanaethau, cyfleusterau a chlodiant cyhoeddus. Bydd ffiniau datblygu cryf yn atal yr aneddiadau rhag uno.²²

Prif Ardal Twf

- 5.9 Mae cyfarwyddo'r rhan fwyaf o'r datblygiad i'r Brif Ardal Twf yn gyson â Chynllun Gofodol

²⁰ Amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl arferol fel y saif ar 30 Mehefin 2015. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

²¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Gofynion Poblogaeth a Thai, Papur Cefndir 2017.

²² Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Papur Cefndir ar Letemau Glas, 2017.



Cymru²³ a 'Syniadau Blaengar - Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020'²⁴.

- 5.10 Mae Merthyr Tudful wedi'i lleoli yn strategol yng nghanol Blaenau'r Cymoedd sef rhanbarth ddaearyddol ac economaidd yng ngogledd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae'n darparu cyswllt strategol rhwng yr A470(T) o'r gogledd i'r de a'r A465(T) o'r dwyrain i'r gorllewin. Adlewyrchir hyn gan isadeiledd cludiant cyhoeddus da sy'n cynnwys terfynfa rheilffordd a chyfnewidfa bysiau.
- 5.11 Tra bod Merthyr Tudful yn cynnwys nifer o gymunedau gwahanol ac ar wahân, mae yna gryn dipyn o gyd-ddibyniaeth rhyngddynt, yn rhannol oherwydd cymeriad daearyddol yr ardal. Mae pob cymuned yn agos at ganol y dref sef y brif ganolfan masnachu, manwerthu, a gwasanaethu ym Mlaenau'r Cymoedd, ac mae'n darparu mynediad i ystod eang o siopau, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau eraill.
- 5.12 Yn unol â hynny, mae'r strategaeth yn cynnwys polisiau a dyraniadau tir priodol i hwyluso'r dasg o ehangu'r brif anheddiad, sef Merthyr Tudful, fel lle cynaliadwy i fyw, gweithio ac ymweld â hi. At hynny, mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod gan Ferthyr Tudful mwy o allu i adfywio safleoedd tir llwyd nag unrhyw le arall yn y Fwrdeistref Sirol.
- 5.13 Mae'r cyflwyniadau ar gyfer safleoedd ymgeisiol²⁵ a'r safleoedd a gynhwyswyd yng nghyflenwad tir 5-mllynedd²⁶ y Cyngor, yn nodi mai wardiau Cyfarthfa, Plymouth a'r Dref sy'n debygol o brofi'r twf mwyaf hyd at 2031. Caiff cyfran sylweddol o'r cartrefi newydd ei chyflwyno fel rhan o ddatblygiad cymysg sylweddol yn 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' sy'n ymgorffori Safle Hoover a Pharc y Ddraig.

5.14 Mae'r buddsoddiad sylweddol a gafwyd gan y sector preifat dros y blynyddoedd diwethaf yn ennyn hyder fod cyfeirio datblygiadau i'r Brif Ardal Twf nid yn unig yn ymarferol ond yn fwyaf tebygol o elwa'r Fwrdeistref Sirol a'r isranbarth yn ehangach. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar lwyddiant y datblygiadau diweddar hyn megis datblygiad tai Cwrt Aneurin Bevan, estyniad Parc Manwerthu Cyfarthfa, a BikePark Cymru.

5.15 Mae egwyddorion dylunio da yn allweddol i greu lleoedd deniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hwy. Cânt eu hyrwyddo i sicrhau'r gwrthdaro lleiaf bosib o ran defnydd tir gyda mesurau lliniaru/digolledu priodol ar waith lle bo angen.

Ardal Twf Arall

- 5.16 Mae'r 'Ardal Twf Arall' yn cynnwys nifer o gymunedau ac aneddiadau yn y cwm sy'n rhyngddibynnol, ac fe'u lleolir o fewn hanner deheuol y Fwrdeistref Sirol. Mae ganddynt hunaniaeth ac ysbryd cymunedol unigryw sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y Fwrdeistref Sirol. Mae'r ardal hanner ffordd rhwng yr M4 a'r A465(T) a chan ei bod yn hygyrch i Ferthyr Tudful, Pontypridd a Chaerdydd trwy ffyrdd a rheilffyrdd, mae hi wedi datblygu rôl fel preswylfan i gymudwyr.
- 5.17 O fewn yr 'Ardal Twf Arall', cafwyd lefel gymharol uchel o ddatblygiadau tai dros y ddau ddegawd diwethaf ac o ganlyniad, mae'r tir y gellir ei ddatblygu wedi'i ddefnyddio a'i ymrwymo. At hynny, cyfyngwyd ar allu'r tir sydd ar ôl i gynnal datblygiadau ychwanegol heb orniweidio'r amgylchedd a gorlethu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol.
- 5.18 Mae aneddiadau'r ardaloedd hyn yn cael eu gwasanaethu'n rhesymol gan gludiant cyhoeddus gyda'r gwasanaeth bws yn sicrhau teithiau dwyffordd i brif ganolfannau

²³ People, places, futures – The Wales Spatial Plan update 2008.

²⁴ Syniadau Blaengar – Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020 (2006).

²⁵ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol 2017.

²⁶ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017.

Merthyr Tudful a Phontypridd, ac mae'r llinell trên o Ferthyr i Gaerdydd yn gwasanaethu'r cymunedau a leolir yng Nghwm Taf Fawr. Mae Llwybr Taf, Llwybr Trevithick a Llwybr Celtaidd hefyd yn darparu rhwydwaith seiclo integredig trwy'r ardal.

5.19 Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae buddsoddiad sylweddol yn y sector cyhoeddus wedi adfywio'r dirwedd ôl-ddiwydiannol yn faterol ac wedi gwella apêl weledol yr ardal o gryn dipyn. Mae Parc Taf Bargoed a Rock UK yn asedau allweddol, a bydd manteisio ar eu potensial i wella'r ddarpariaeth hamdden a thwristiaeth yn hanfodol i gymell adfywiad a denu buddsoddiad pellach i'r ardal, yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at wella iechyd a lles y trigolion.

5.20 Mae cyfeirio rhywfaint o dwf i'r cymunedau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at eu hadfywiad a'u bywiogrwydd, ac yn cefnogi'r dasg o warchod y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol.

Datblygu cynigion manwl yn y brif ardal twf a'r ardaloedd twf eraill.

5.21 Mae cymunedau sydd wedi'u cynllunio'n dda yn sicrhau cartrefi a swyddi newydd ac mae'n allweddol bwysig eu bod hefyd yn meddu ar yr amrywiaeth gywir o gyfleusterau. Bydd penderfyniadau manwl ar gynigion yn cael eu gwneud gan y Cyngor wrth gytuno ar y 'Cynllun Adneuo' yn 2018, er enghraifft - pa safleoedd tai fydd yn cael eu dewis fel dyraniadau?

5.22 Mae rhinweddau pob safle ymgeisiol wedi'u hystyried o ran cynaliadwyedd, a gwahoddir sylwadau ar y 'Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol'²⁷ fel rhan o'r ymgynghoriad hwn cyn y byddir yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar ba rai fydd yn cael eu dewis fel dyraniadau yn y 'Cynllun Adneuo'.

5.23 Mae trafodaethau cychwynnol gyda darparwyr cyfleustodau heb nodi unrhyw gyfyngiadau sylfaenol, er y bydd gwaith manwl pellach yn parhau er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd erbyn 2031.

5.24 Rhoir ystyriaeth allweddol i'r modd y bydd safleoedd datblygu posibl yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth ar gyfer ysgolion a chlodiant cynaliadwy. Mae'n hanfodol sicrhau cysylltedd rhwng yr ardaloedd lle mae pobl yn byw a'r gwasanaethau a gynigir gan y Fwrdeistref Sirol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

5.25 Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ffyrdd o wella ansawdd bywyd trigolion, er enghraifft, trwy gefnogi gwelliannau i faint, ansawdd a hygyrchedd y mannau agored a thrwy gefnogi cyfleusterau cymunedol a chanolfannau lleol.

Gwella llesiant diwylliannol ac amgylcheddol (Amcanion 8-10 y CDLI).

5.26 Mae'r strategaeth yn ceisio diogelu, rheoli a gwella asedau diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog ac amrywiol y Fwrdeistref Sirol, sydd yn ei dro yn cyfrannu at ei nodweddion unigryw a'i synnwyr o le. Mae llawer o'r rhain o bwysigrwydd cenedlaethol ac wedi'u dynodi gan sefydliadau eraill megis Cadw, Henebion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

5.27 Mae 'Ardaloedd Cadwraeth' ac 'Ardaloedd Cymeriad Trefol'²⁸ wedi cael eu nodi'n lleol, a bydd 'Ardaloedd Archeolegol Sensitif' yn cael eu nodi yn y dyfodol agos er mwyn darparu ffocws i warchod cymeriad hanesyddol. Mae Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa yn datblygu atyniad i ymwelwyr sy'n seiliedig ar dreftadaeth fel ei bod yn ategu'r hyn a gynigir gan Gastell Cyfarthfa a'r parc.

²⁷ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol 2017.

²⁸ Merthyr Tudful: Deall Nodweddion Trefol: 2015.



5.28 Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur²⁹ yw'r enghreifftiau pwysicaf o gynefinoedd lleol; mae monitro'r mannau hyn yn rhoi syniad o iechyd bioamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol a diogelir eu buddiannau yn unol â hynny. Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn cael eu cynnig fel modd i gysylltu pobl yr ardaloedd trefol â natur.

5.29 Yn lleol, cynigir bod tirweddau pwysig yn cael eu hadnabod fel 'Ardaloedd Tirwedd Arbennig'³⁰ gan gydnabod bod eu cymeriad yn ffurfio lleoliad da ar gyfer aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol.

Gwella lles economaidd (Amcanion 11-17 y CDLI).

5.30 Mae'r strategaeth yn ceisio ategu Strategaeth Twf Economaidd a Chynllun Rheoli Cyrchfan drafft³¹ y Fwrdeistref Sirol trwy: ddyrannu'r maint a'r dewis priodol o dir cyflogaeth, diogelu safleoedd cyflogaeth, perfformio rôl economaidd bwysig, a chefnogi canol y dref.

5.31 Mae cyflwyniadau'r safleoedd ymgeisiol yn awgrymu y caiff y prif ddyraniadau ar gyfer tir cyflogaeth eu cyfeirio tuag at yr Ardal Adfywio Strategol, Ffordd Goatmill a'r tir ger yr A4060. Bydd yr olaf o'r rhain yn dibynnu ar gwblhau cam cyntaf Cynllun Adfer Tir Ffos-y-Frân a'r manteision o ddeuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd (yr A465). Caiff safleoedd diwydiannol addas eu nodi fel ardaloedd i chwilio am gyfleusterau rheoli gwastraff priodol.

5.32 Mae Canol y Dref, yn arbennig, yn cael ei ystyried fel ased allweddol ac yn parhau'n dyngedfennol i'r adfywiad. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r angen i barhau ag adfywiad canol y dref a bydd yn ceisio manteisio ar y grym gwario ychwanegol

a gaiff ei ddenu i Ferthyr Tudful trwy ddatblygiadau ar ymyl y canol megis Parc Manwerthu Cyfarthfa a Melinau Trago. Yn sylfaenol i lwyddiant y dull hwn, mae'n rhaid sicrhau bod y manwerthu a gynigir ymhob un o'r lleoliadau hyn yn ddigon gwahanol rhag iddynt danseilio bwrllwm a hyfywedd canol y dref. Ar ben hynny, mae'n rhoi cymorth i'r sector twristiaeth ac i swyddogaeth manwerthu'r dref a'r canolfannau lleol.

5.33 Erbyn diwedd 2018, bydd Llywodraeth Cymru (LIC)³² yn cyflwyno cyllidebau carbon ar gyfer y cyfnod 2016-2025. Mae ynni adnewyddadwy yn cynnig cyfle i leihau allyriadau carbon a chynhyrchu incwm. Mae'r strategaeth yn cefnogi cynnydd ym maint yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ac, er mwyn sefydlu pa adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael, comisiynwyd Regen SW (sefydliad arbenigol nid-er-elw) i gynnal asesiad yn unol â chanllawiau cenedlaethol³³.

5.34 Yn dilyn gwaith manwl pellach, bydd y CDLI Adneuo yn nodi targed ynni sy'n isel o ran carbon, yn adnewyddadwy ac yn lleol, ynghyd ag 'Ardaloedd Chwilio Lleol', ar gyfer prosiectau ledled yr Awdurdod Lleol ac ar raddfa is na'r Awdurdod Lleol. Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau sy'n defnyddio cryn dipyn o wres roi ystyriaeth i'w gynhyrchu trwy opsiynau adnewyddadwy. Oherwydd natur gymharol drefol Merthyr Tudful, bydd ynni adnewyddadwy sy'n gysylltiedig ag adeiladau yn chwarae rhan hanfodol, ac mae yna botensial sylweddol i osod systemau ffotofoltäig ar doeon, gan greu trydan o olau.

5.35 Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi dulliau cynaliadwy o gyflenwi Mwynau yn y rhanbarth.

²⁹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Papur Cefndir 2017.


³⁰ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Papur Cefndir 2017.

³¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Strategaeth Twf Economaidd 2017.

³² Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

³³ Cyfarwyddyd Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel - pecyn cymorth i gynllunwyr.

6. Diagram Allweddol



7. Polisiâu Allweddol i Gyflawni'r Strategaeth a Ffefrir

7.1 Er mwyn sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn parhau i fod yn lle deniadol a fydd yn codi awydd ar bobl i fyw ac ymfalchïo ynddo tan 2031 a thu hwnt, mae'r strategaeth a ffefrir dan sylw yn darparu sail gadarn ar gyfer datblygu'r CDLI Adneuo ac yn crisialu cyfraniad ein Bwrdeistref Sirol ni i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd tan 2031.

7.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r weledigaeth a'r amcanion lleol ar gyfer llesiant drwy'r system gynllunio, cafodd amcanion y CDLI eu dethol a'u trefnu yn ôl eu cyfraniad i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru.

7.3 O dan bob un o amcanion y CDLI, nodir y dulliau polisi ynghyd â rhesymau sy'n dangos sut y caiff y strategaeth ei chyflawni.

7.4 Mae'n bwysig fod y strategaeth a ffefrir yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd ac ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol.

7.5 Gwellu ein Llesiant Cymdeithasol

Amcan 1 y CDLI: Annog y boblogaeth i dyfu ar lefel a dosbarthiad sy'n gynaliadwy.

7.5.1 Mae twf poblogaeth yn denu buddsoddiad ac yn gyrru'r galw am wasanaethau a chyfleusterau sy'n bwysig i'n bywydau bob dydd. Mae ein Bwrdeistref Sirol yn lle deniadol ac yn gymharol fforddiadwy i fyw ynddi, ac yn 2015, roedd ei phoblogaeth yn 59,324³⁴ yn ôl amcangyfrif canol-blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae rhagamcanion SYG³⁵ yn rhagweld cynnydd bychan tan 2024, cyn gostwng yn ôl dros weddill cyfnod y cynllun.

7.5.2 Mae ein dadansoddiad demograffig³⁶ yn dangos bod mwy o enedigaethau, llai o farwolaethau a mudo rhyngwladol, wedi celu'r effaith a gafwyd wrth i'n trigolion ddewis symud i rannau eraill o'r DU, tuedd sydd wedi bod yn amlwg er 2008.

7.5.3 Er mwyn cadw a thyfu ein poblogaeth mewn modd cynaliadwy, mae'n rhaid inni gyflawni ein gweledigaeth ac ymdrechu i wella atyniad ein Bwrdeistref Sirol fel lle y gallwn ymfalchïo ynddo.

7.5.4 O'r tri opsiwn twf a ddeilliodd o'r wyth senario demograffig³⁷, y farn gyffredin ymysg rhanddeiliaid allweddol oedd mai tyfu'r boblogaeth i tua 64,000 o bobl erbyn 2031 oedd y canlyniad demograffig mwyaf cynaliadwy. Bydd hyn yn gweld llai o bobl oed gweithio yn gadael y Fwrdeistref Sirol a chynnydd yn y galw i gefnogi cyfleusterau lleol mewn mannau hygyrch, heb orlethu'r seilwaith cymunedol a chymdeithasol presennol³⁸.

7.5.6 Mae ein hymchwili³⁹ yn dangos bod yna gydberthynas rhwng yr adegau pan fydd ein cyfraddau adeiladu tai yn iach, a'r adegau pan lwyddir i ddal gafael ar y boblogaeth a'i thyfu'n gynaliadwy. Felly, mae rhoi cefnogaeth i adeiladu tai yn ffocws allweddol i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Amcan 2 y CDLI: Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

7.5.7 Uchelgais Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod traean poblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg erbyn 2050. Mae cynnal lefel y siaradwyr Cymraeg yn ein Bwrdeistref Sirol yn un o amcanion allweddol y Strategaeth

³⁴ Cyfarwyddyd Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel - pecyn cymorth i gynllunwyr.

³⁵ Prif amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar ffigurau 2014, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

³⁶ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Gofynion Poblogaeth a Thai, Papur Cefndir 2017.

³⁷ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Gofynion Poblogaeth a Thai, Papur Cefndir 2017.

³⁸ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Arfaniad Cynaliadwyedd Cychwynnol 2017.

³⁹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Gofynion Poblogaeth a Thai, Papur Cefndir 2017.

Hybu'r Gymraeg⁴⁰ sydd ar y gweill. Mae twf cynaliadwy i'n poblogaeth yn ategu'r amcan hwn trwy geisio osgoi'r dirywiad a ragwelir o ganol y 2020au.

Polisi SW1: Darparu cartrefi newydd.

Er mwyn i'n poblogaeth dyfu'n gynaliadwy, mae angen 2250 o gartrefi ychwanegol. Er mwyn cyflawni hyn, gwneir darpariaeth ar gyfer 2825 o gartrefi ychwanegol.

Gofynion anheddau

7.5.8 Er mwyn hwyluso'r dasg o dyfu ein poblogaeth yn gynaliadwy i tua 64,000 erbyn 2031, rydym wedi amcangyfrif bod angen 2,250⁴¹ o gartrefi newydd. Er mwyn sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cwblhau, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu lwfans ychwanegol wrth gefn o tua 25%, gan adlewyrchu ffocws y strategaeth ar ddefnyddio tir llwyd.

7.5.9 Ein dyhead yw diwallu'r twf cynaliadwy yn gyfan gwbl o fewn yr Ardal Gynllunio Leol.

Cydrannau cyflenwi

7.5.10 Dyma'r cydrannau cyflenwi ar gyfer y 2825 o gartrefi yn y CDLI Adneuo:

- Cwblhau - 1 Ebrill, 2016 - 31 Mawrth, 2018.
- Cartrefi sy'n cael eu hadeiladu a'u cynnwys yn y cyflenwad 5 mlynedd ar 1 Ebrill, 2018.
- Caniatadau'r Banc Tir yn y cyflenwad 5 mlynedd ar 1 Ebrill 2018.
- Hap-gyfraniadau.
- Dyraniadau ar gyfer adeiladu tai.

Hap-gyfraniadau

7.5.11 Wrth fonitro, gellir amcangyfrif y nifer o hap-gyfraniadau posibl. Mae Tabl 1 ar dudalen 23 yn dangos hap-gyfraniad sy'n gyfwerth â 395 o gartrefi.

Crynodeb o'r strategaeth dwf

7.5.12 Mae darparu 2,250 o gartrefi yn uchelgeisiol ac yn gyraeddadwy. Bydd cyrraedd y lefel hon o dwf tai yn bodloni ein dyhead i osgoi'r gostyngiad a ragwelir yn y boblogaeth trwy gadw mwy o bobl oed gweithio. Mae'r strategaeth yn rhoi digon o gyfle i sicrhau parhad i'r cyfraddau cyfartalog ar gyfer adeiladu tai a gafwyd oddi ar 2002, pryd yr amcangyfrifwyd mai 55,996⁴² oedd ein poblogaeth.

7.5.13 Wrth 'adnewo', byddwn yn darparu 'taflwybr tai' er mwyn dangos cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer 2,250 o anheddau tan 2031, gyda 1 Ebrill, 2016, fel y dyddiad sylfaen. Gan ddefnyddio'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n ymddangos bob blwyddyn, byddwn yn monitro cyflawniad yn erbyn y taflwybr hwn.

Polisi SW2: Darparu tai fforddiadwy.

Er mwyn helpu i ddiwallu angen y Fwrdeistref Sirol am dai fforddiadwy, bydd y CDLI yn cyfrannu (nifer x) o dai fforddiadwy.

Tai fforddiadwy

7.5.14 Wrth gyflawni'r gofynion anheddau, byddwn yn ymdrechu i wneud y gorau i ddarparu tai fforddiadwy, gan weithio gyda chymdeithasau tai a datblygwyr. Cyflawnir hyn trwy bolisi sydd: yn cynnwys targed ar gyfer yr holl dai fforddiadwy a ddarperir; yn sicrhau bod cyfran o'r unedau ar safleoedd, uwchlaw rhyw drothwy penodol, yn dai fforddiadwy; yn hwyluso tai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig y tu allan i ffiniau aneddiadau; ac yn dyrannu rhai safleoedd ar gyfer 100% o dai fforddiadwy.

7.5.15 Mae ein Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol (2015)⁴³ yn amcangyfrif bod angen 366 o dai fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn, gyda thai fforddiadwy cymdeithasol ar

⁴⁰ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Strategaeth Hybu'r Gymraeg, drafft 2017.

⁴¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Gofynion Poblogaeth a Thai, Papur Cefndir 2017.

⁴² Amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl arferol fel y saif ar 30 Mehefin, 2002 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

⁴³ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2015.

rent yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o'r angen hwn.

7.5.16 Caiff Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ddiwygiedig ei baratoi yn gynnar yn 2018.

7.5.17 Bydd y cyfraniad a wna'r Cynllun i dai fforddiadwy yn cael ei fonitro trwy'r Adroddiadau Chwarterol ar Reoli Datblygu.

Polisi SW3: Dosbarthu cartrefi newydd mewn modd cynaliadwy.

Bydd Cartrefi newydd yn cael eu crynhoi o fewn y prif anheddiad sef Merthyr Tudful (y Brif Ardal Twf). Bydd cyfran sylweddol o'r rhain (tua 800) yn cael eu darparu o fewn 'Ardal Adfywio Strategol Hoover'.

- Caiff y rhestr o ddyraniadau ei hychwanegu ar y cam adneuo.

At hynny, caiff cartrefi newydd eu cyfeirio at ein haneddiadau eraill sef Troedyrhiw, Ynysowen ac Aberfan, Bedlinog ac Edwardsville, Mynwent y Crynwyr, Trelewis a Threharris (Ardal Twf Arall).

- Caiff y rhestr o ddyraniadau ei hychwanegu ar y cam adneuo.

Bydd datblygiadau tai sy'n fforddiadwy ac yn cynnwys x o gartrefi neu lai, yn cael eu cefnogi ar safleoedd heb fod yn fwy na x hectar y tu allan ond yn gyfagos i ffin yr anheddiad.

Dosbarthu twf tai

7.5.18 Ar ôl pennu lefel gynaliadwy'r twf poblogaeth a chyfrifo'r anheddau fydd eu hangen i gyflawni hynny, y cwestiwn nesaf yw sut orau y gellid dosbarthu'r twf ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau bod cymunedau, gwasanaethau ac isadeiledd yn gallu cynnal mwy o bobl?

7.5.19 Er mwyn sicrhau twf cynaliadwy ar gyfer

ein holl gymunedau, mae'n bwysig bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu o fewn ein prif anheddiad (Merthyr Tudful) ac yn ein haneddiadau eraill hefyd, a'n bod yn cefnogi anghenion hanfodol ein cymunedau gwledig.

7.5.20 Ar ôl gofyn am 'enwebiadau safle' yn 2016⁴⁴, daeth tri opsiwn i'r amlwg ar gyfer dosbarthu cartrefi newydd o fewn ein prif anheddiad (Merthyr Tudful)⁴⁵. Y farn gyffredinol ymysg rhanddeiliaid allweddol oedd bod cyfeirio datblygiadau i 'Ardal Adfywio Strategol Hoover', sydd yn ne'r Brif Ardal Twf gan fwyaf, ac i safleoedd llai eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol, yn darparu'r opsiwn dosbarthu mwyaf cynaliadwy.

Prif Ardal Twf

7.5.21 Mae cyfarwyddo'r rhan fwyaf o ddatblygiadau i'r Brif Ardal Twf yn gyson â Chynllun Gofodol Cymru⁴⁶ a 'Syniadau Blaengar - Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020'⁴⁷. Mae pob un yn nodi Merthyr Tudful fel un o'r 'Prif Aneddiadau Allweddol' yn isranbarth Blaenau'r Cymoedd.

7.5.22 Mae'r dull hwn yn cynnig cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn 'Ardal Adfywio Strategol Hoover', lle bydd cyfran sylweddol o'r cartrefi newydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o 'ddatblygiad defnydd cymysg' o grynn faint.

Ardal Twf Arall

7.5.23 At ei gilydd, mae'r cyfleoedd allweddol ar gyfer tai, gwella ansawdd yr amgylchedd a datblygu economaidd priodol yn y 'Ardal Twf Arall' yn fwy 'lleol' o ran graddfa na'r rhai yn y Brif Ardal Dwf.

⁴⁴ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol 2017.

⁴⁵ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol 2017.

⁴⁶ Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol.

⁴⁷ Syniadau Blaengar - Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020 (2006).

7.5.24 Mae strategaeth y CDLI presennol (2006-2021) yn gwahaniaethu rhwng yr ‘aneddiadau mwyaf deheuol’ a’r ‘aneddiadau yng nghanol y cwm’, gan adlewyrchugwahanolardaloeddyfarchnad dai. Fodd bynnag, mae’r galw llai am anheddau o’i gymharu â’r CDLI presennol yn golygu y byddai’n well cyfuno lefel y twf a ddisgwylir yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu ‘cyfradd breswyl sero’ yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a geir ar hyn o bryd yn ardaloedd y Cymoedd Canol ac Isaf.

Dosbarthu rhwng y Brif Ardal Twf a’r Ardaloedd Twf Eraill

7.5.25 Bydd union ddosbarthiad y cartrefi newydd rhwng ardaloedd twf yn y ‘Cynllun Adneuo’ yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd i’r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai hyd at 31 Mawrth, 2018, er y bydd yn dilyn yn fras yr hyn a fynegir yn Nhabl 1 (isod). Mae hyn yn dangos y bydd tua 75 % o gartrefi newydd yn cael eu cyfeirio tuag at Ferthyr Tudful (y Brif Ardal Twf), gan gyfeirio’r 25 % sy’n weddill tuag at ein haneddiadau eraill sef, Troedyrhiw, Ynysowen ac Aberfan, Bedlinog, Edwardsville, Mynwent y Crynwyr, Trelewis a Threharris (Ardal Twf Arall).

Tabl 1 - Cydrannau a dosbarthiad y cyflenwad tai o 1 Ebrill 2017.

	Cydrannau’r Cyflenwad Tai	Cydrannau’r Cyflenwad Tai	Ardaloedd Twf Eraill	Cyfanswm
A	Cyfanswm y tai a gwblhawyd (bach a mawr) 01.04.16 – 31.03.17	121	52	173
B	Ar y gweill	39	2	41
C	Unedau â chaniatâd neu a gynhwyswyd yng Nghategori 2 JHLAS (31.03.17)	325	266	591
D	Safleoedd/dyraniadau ymgeisiol sy’n cydymffurfio â’r Strategaeth (yn amodol ar fireinio pellach)	1465 (tua 800 ar safle strategol)	160	1625
E	Hap-safleoedd mawr (+10), 14 o flynyddoedd ar ôl	81	20	101
F	Hap-safleoedd bach (-10), 14 o flynyddoedd ar ôl	235	59	294
G	Brasamcan o’r ddarpariaeth tai	2266	559	2825



Hyblygrwydd wrth ddosbarthu

7.5.26 Sicrhawyd bod hyblygrwydd yn rhan annatod o ddosbarthiad y cartrefi newydd trwy gefnogi amrywiaeth o safleoedd yn y Brif Ardal Twf a'r Ardal Twf Arall. Er y bydd 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' yn cyfrif am gyfran sylweddol o dai yn y Brif Ardal Twf, caiff safleoedd eraill eu cefnogi i ddenu adeiladwyr mawr a bach yn ogystal â hunanadeiladwyr. Yn yr Ardaloedd Twf Eraill, gan gydnabod gwahanol ardaloedd y farchnad dai, caiff hyblygrwydd o ran twf ei ddarparu rhwng y cymunedau. Unwaith eto, caiff safleoedd eu cefnogi i ddenu adeiladwyr mawr a bach yn ogystal â hunanadeiladwyr.

Dewis dyraniadau tai

7.5.27 Er mwyn cwrdd â'n gofynion anheddau, caiff safleoedd priodol i adeiladu tai ymhob un o'r ardaloedd twf, eu dewis o gronfa sy'n cynnwys 'safleoedd ymgeisiol'⁴⁸ a safleoedd lle mae tir ar gael i godi tai ar y cyd⁴⁹.

7.5.28 Mae'r 'gofrestr safleoedd ymgeisiol' yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad hwn ac mae modd cynnig sylwadau ar y safleoedd a gyflwynwyd er ystyriaeth. At hynny, mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i enwebu safleoedd pellach i'w hystyried.

7.5.29 Caiff penderfyniadau ynghylch pa dir fydd yn cael ei ddyrannu ar gyfer adeiladu tai yn y CDLI Adneuo yn cael eu gwneud yn unol â meini prawf Polisi Cynllunio Cymru⁵⁰ ac yn seiliedig ar ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys:

- hanes cynllunio'r safle;
- perfformiad cymharol yn erbyn amcanion cynaliadwyedd⁵¹;
- asesiadau o'r gallu i ddarparu safleoedd;

- rhinweddau'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

7.5.30 Bydd gofynion dangosol y polisi ynghyd ag ystyriaethau ynghylch dwyseddau a graddoli, ar gyfer pob safle dyranedig, yn cael eu hatodi i'r cynllun adneuo. Bydd y Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai a gynhelir bob blwyddyn yn monitro'r cyflawniad.

Polisi SW4: Ffiniau Aneddiadau.

Er mwyn annog datblygiadau o fewn ardaloedd trefol, ailddefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes, ac amddiffyn a chefnogi gweithrediad ein heconomi gwledig a chefn gwlad, byddir yn diffinio ffiniau'r aneddiadau fel a ganlyn:

Prif Ardaloedd Twf:

- Merthyr Tudful;
- Trefechan.

Ardaloedd Twf Eraill:

- Troedyrhiw;
- Aberfan ac Ynysowen;
- Mynwent y Crynwyr, Edwardsville, Treharris a Threlewis;
- Bedlinog.

Y tu allan i ffiniau'r aneddiadau diffiniedig, bydd cynigion yn cael eu hystyried fel 'datblygiadau cefn gwlad' ac ni fyddant yn cael eu caniatáu oni bai:-

- bod y datblygiadau'n gysylltiedig â mentrau gwledig neu'n ymwneud â chloddio a gweithio mwynau;
- bod y datblygiadau'n ailddefnyddio, yn addasu, neu'n disodli adeiladau ac anheddau gwledig;
- bod y datblygiadau'n ehangu busnesau sydd eisoes yn bodoli yng nghefn gwlad;
- bod y datblygiadau'n creu cyfleusterau twristiaeth, adloniant neu hamdden lle gellir llwyr gyfiawnhau eu lleoliad cefn

⁴⁸ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol 2017.

⁴⁹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017.

⁵⁰ Polisi Cynllunio Cymru, Adran 9.2.9 (Argraffiad 9, 2016).

⁵¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol 2017.

- gwlad a phrofi'u hyfywedd;
- bod y datblygiadau ar gyfer darparu cyfleustodau cyhoeddus, isadeiledd neu gyfleusterau rheoli gwastraff ac na ellir mo'u lleoli'n rhesymol mewn mannau eraill;
- bod angen y datblygiadau i adfer neu drin tir sy'n ansefydlog neu'n halogedig;
- bod y datblygiadau ar gyfer ynni adnewyddadwy;
- bod y datblygiadau ar gyfer tai fforddiadwy.

Ffiniau Aneddiadau

7.5.31 Trwy gynnwys datblygiadau o fewn yr ardal drefol, gellir hybu lleoliadau cynaliadwy ar eu cyfer a'u cymathu â gwasanaethau a chyfleusterau presennol; at hynny, mae'n rhoi cymhelliad i aildddefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru⁵². Er mwyn rhoi 'sicrwydd cynllunio', mae angen diffinio cefn gwlad yn glir ac yn fanwl. At ei gilydd, mae gwerth tir yn is yng nghefn gwlad ac mae hynny'n galluogi ein sectorau gwledig allweddol sef amaeth a choedwigaeth, i weithredu'n briodol gan roi rhywfaint o ddiogelwch i gymeriad ein hardaloedd gwledig.

7.5.32 Nid yw'r strategaeth yn cynnwys dynodiadau 'Lletem Las' (yn wahanol i'r CDLI presennol). Ystyrir bod ffiniau cryf i'r aneddiadau yn fecanwaith digonol i'w hatal rhag cyfuno⁵³.

7.5.33 Caiff adolygiad manwl o ffiniau'r aneddiadau ei gynnal a bydd yn sylfaen i'r CDLI adneuo. Yn gyffredinol, mae ffiniau aneddiadau yn seiliedig ar faint yr ardal adeiledig, ac eithrio lle caiff tir amaethyddol oedd gynt yn gynhyrchol ei dorri a'i wneud yn anymarferol gan ddatblygiad seilwaith neu, lle caiff datblygiad ei ddyrannu'n estyniad trefol. Yn yr achosion hyn, efallai

y caiff ffin yr anheddiad ei dynnu y tu hwnt i'r datblygiad trefol presennol.

Cefnogi Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

7.5.34 Wrth arddel y rhagdybiaeth gyffredinol y dylid diogelu cefn gwlad, rydym hefyd yn deall y gall cefn gwlad sy'n gweithio, ddarparu economi leol ffyniannus ac amrywiol lle gall gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaeth gyd-fynd â thwristiaeth gynaliadwy a mathau eraill o ddatblygu economaidd.

7.5.35 Mae polisïau mewn mannau eraill:

- yn diogelu ac yn gwella nodweddion allweddol sydd o bwys diwylliannol ac amgylcheddol yng nghefn gwlad;
- yn cefnogi datblygiadau yng nghefn gwlad a fydd yn darparu adeiladau priodol, adfywiad a hwb i'w economi.

7.5.36 At ddibenion cynllunio, ystyrir tir sydd y tu allan i unrhyw ffin anheddiad fel 'cefn gwlad', lle bydd datblygiadau'n cael eu rheoli'n ofalus yn unol â pholisïau perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol a'r Polisi Rheoli Datblygiadau Cenedlaethol ynghyd â chynghor ynghylch cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy⁵⁴.

Amcan 3 y CDLI: Hyrwyddo cyflenwad amrywiol o dai ar dir addas a ddatblygwyd yn flaenorol.

7.5.37 Er mwyn darparu dewis eang o gartrefi da a chreu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol ar draws y Fwrdeistref Sirol, byddwn yn hyrwyddo cymysgedd o dai i gwrdd ag anghenion gwahanol grwpiau yn ein cymuned, yn gwneud y mwyaf o safleoedd tir llwyd, ac yn aildddefnyddio'r stoc adeiladau presennol.

7.5.38 Yn ôl ein hamcanestyniadau, bydd proffil ein poblogaeth yn heneiddio erbyn 2031. Rydym yn ymwybodol iawn o'r goblygiadau

⁵² Polisi Cynllunio Cymru, Adran 4.9 (Argraffiad 9, 2016).

⁵³ Cynghor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Papur Cefndir ar Letemau Glas, 2017.

⁵⁴ Nodyn Cynghor Technegol 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.

iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein 'Hasesiad Anghenion Poblogaeth'⁵⁵ a 'Chynllun Heneiddio'n Dda yng Nghymru Cwm Taf'⁵⁶ yn nodi bod mynediad i dai addas yn cael effaith allweddol ar ein lles.

7.5.39 Mae darparu tai ymddeol arbenigol o fudd ehangach i'r gymdeithas a'r economi, ac yn diwallu anghenion y trigolion hŷn. Mae hefyd yn rhyddhau tai ac yn oedi'r angen am ofal sefydliadol.

Polisi SW5 - Ardal Adfywio Strategol Hoover.

Ar y diagram allweddol, caiff Ardal Adfywio Strategol Hoover ei nodi fel datblygiad a fydd yn hyrwyddo defnydd cymysg o gryn faint.

7.5.40 Mae 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' yn elfen allweddol o'n strategaeth a chaiff cynigion a gwybodaeth fwy manwl eu cynnwys yn y Cynllun Adneuo. Bydd enw da Merthyr Tudful fel lle deniadol, cynaliadwy a hygyrch, yn cael hwb ychwanegol wrth i'r prosiect adfywio sylweddol hwn roi lle canolog i gludiant cynaliadwy.

7.5.41 Bydd Metro De Cymru gyda'i reilffyrdd ysgafn ac aml, yn gatalydd ar gyfer datblygu cymdogaeth gymysg a chynaliadwy. Yno, bydd busnesau, cartrefi, siopau a pharcdir newydd yn ffynnu mewn amgylchedd glan-afon, gyda chysylltiadau ardderchog i'r bryniau gwyrdd, llwybrau Taf a Trevithick ac amwynderau Canol Tref Merthyr Tudful. Mae'r argoelion cynnar yn awgrymu y bydd yr ardal adfywio strategol yn cefnogi seilwaith trafnidiaeth (gorsaf metro newydd a chyfleuster parcio a theithio) ynghyd ag elfen fach o fanwerthu, ar gyfer tua 800 o gartrefi a thir cyflogaeth.

7.5.42 Mae yna uwchgynllun fframwaith ar y gweill a fydd yn sail i arfarnu'r datblygiad yn fanwl o ran y galw a'r hyfywedd, ac o ran y cynllunio a'r graddoli.

Polisi SW6: Safle Adfywio Hen Weithfeydd Dur Ivor.

Byddir yn cefnogi datblygiadau priodol ar hen safle Gweithfeydd Dur Ivor yn Nowlais.

7.5.43 Mae safle'r hen Weithfeydd Dur Ivor yn Nowlais yn cynnig y potensial i ysgogi adfywiad, twf economaidd a gwelliannau amgylcheddol yn y Brif Ardal Twf. Er bod uwchgynllun manwl yn bodoli ar gyfer 'datblygiad defnydd cymysg' sef 'Project Heartland', ar hyn o bryd mae ei ddiffyg hyfywedd yn golygu na ellir dibynnu'n rhesymol ar y safle i gyflawni'r gwaith o fewn y cyfnod angenrheidiol. Serch hynny, os daw cynigion ar gyfer datblygiad priodol i law, efallai y byddai modd i'w cefnogi os glynir wrth bolisiau perthnasol eraill.

Polisi SW7 - Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn.

Bydd safle Glynmill yn cael ei ddangos ar y map cynigion adneuo fel y lleoliad gorau i ddatblygu ar gyfer anghenion Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn.

Bydd y dasg o ddatblygu ar gyfer anghenion Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn destun polisi a seiliwyd ar feini prawf y Cynllun Adneuo.

7.5.44 Gall y galw am leiniau Sipsiwn-Teithwyr hyd at 2021 gael ei ddiwallu ar Safle Glynmill⁵⁷. Mae Polisi SW7 yn cael ei gynnwys ar gyfer safleoedd preswyl a thramwy annisgwyl ac unrhyw anghenion newydd a gaiff eu canfod wrth ddiweddarau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2021.

7.5.45 Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r safonau a'r dylunio roi sylw i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a Chanllawiau Arfer Da Llywodraeth Cymru ar Ddylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr 2014.

⁵⁵ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, Asesiad Anghenion Poblogaeth 2017.

⁵⁶ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, Cynllun Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

⁵⁷ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, Cynllun Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

Amcan 4 y CDLI: Sicrhau bod darparu isadeiledd a mannau agored yn sail i adfywio cymunedau.

7.5.46 Er mwyn cefnogi twf yn y boblogaeth, mae angen ystod lawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd, hamdden ac addysg, gan gynnwys tai fforddiadwy. Wrth ddewis y safleoedd datblygu ar gyfer y cynllun adneuo, bydd y seilwaith a fydd yn hanfodol i ddygymod yn dderbyniol â'r datblygiad, yn cael ei nodi a'i sicrhau trwy ddefnyddio'r Rhwymedigaethau Cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae'r polisi ar gyfer rheoli datblygiadau cenedlaethol yn egluro sut y mae gwneud defnydd priodol o'r Rhwymedigaethau Cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol⁵⁸.

Polisi SW8: Rhwymedigaethau Cynllunio.

Gellir gofyn am Rhwymedigaethau Cynllunio ar gyfer:

1. darparu tai fforddiadwy ar safleoedd lle ceir x neu fwy o gartrefi ar lefel ddangosol o:
 - x% yn y Brif Ardal Twf;
 - x% yn yr Ardal Twf Arall.
2. cyfrannu'n ariannol tuag at ddarparu tai fforddiadwy:
 - ar safleoedd rhwng x ac x o gartrefi;
 - ar safleoedd o x neu fwy o gartrefi, lle nad yw'r ddarpariaeth ar y safle'n briodol.
3. darparu a/neu wella mannau agored ar safleoedd o x neu fwy;
4. rhwymedigaethau perthnasol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhestr Seilwaith y Cyngor, Rheoliad 123.

7.5.47 Er mwyn hyrwyddo tai fforddiadwy a gwella mannau agored a seilweithiau angenrheidiol eraill, mae'r Cyngor yn bwriadu:

- defnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar ffurf cytundebau Adran 106;
- adolygu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL);
- atodi amodau i bob caniatâd cynllunio.

7.5.48 Mae'r holl bolisiau a nodir yn y cynllun adneuo, megis y gofynion ar gyfer tai fforddiadwy a'r gefnogaeth a roir i seilwaith a mesurau amgylcheddol mewn datblygiadau newydd, yn gorfod cael eu profi er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn gwneud elw rhesymol ar ôl cymryd costau datblygu i ystyriaeth (gan gynnwys darparu enillion cystadleuol i berchnogion tir).

7.5.49 Mae dealltwriaeth realistig o gostau'n hanfodol wrth gynnal asesiad hyfywedd go iawn, a bwriadwn chwilio am gonsensws ar ragdybiaethau allweddol trwy Weithgor Tai a Hyfywedd y CDLI cyn ymgymryd ag astudiaeth fanwl.

7.5.50 Caiff gwaith pellach ar hyfywedd ei wneud cyn pennu'r cynllun adneuo er mwyn sicrhau bod yna obaith rhesymol o'i gyflawni.

7.5.51 Bydd y gwaith ar hyfywedd y cynllun hefyd yn dangos a ddylid newid cyfradd ein Hardoll Seilwaith Cymunedol. Os bydd angen ei newid, byddwn yn cyhoeddi rhestr codi tâl ar ffurf ddrafft ragarweiniol, gan osod cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardoll yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r cynllun adneuo. Trwy hynny, bydd modd archwilio'r rhestr codi tâl a'r CDLI ar y cyd.

7.5.52 Bydd ffurflenni ar gyfer yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu⁵⁹ yn monitro lefel y Rhwymedigaethau Cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a sicrhawyd.

⁵⁸ Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, 2016).

⁵⁹ Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, 2016).



Polisi SW9: Diogelu a gwella ein mannau agored.

Caiiff mannau agored dynodedig eu diogelu oni bai bod y golled yn cael ei lliniaru neu'i digolledu gan welliannau i ansawdd rhyw fan agored arall gerllaw.

7.5.53 Mae mannau agored sy'n hygyrch ac wedi'u dylunio a'u cynnal yn dda, yn cyfrannu'n sylweddol at ein hamcan llesiant lleol sef, pobl iach o ran corff a meddwl. Maent hefyd o gymorth i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

7.5.54 Yn unol â hynny, mae ein Strategaeth Mannau Agored⁶⁰ yn darparu fframwaith hirdymor i ddiogelu a gwella ansawdd a hygyrchedd ein rhwydwaith sy'n cynnwys 139 o fannau agored. Bydd y rhain yn cael eu dangos ar fap cynigion y Cyngor.

7.5.55 Rydym yn canolbwyntio ar wella ansawdd ein mannau agored presennol gan roi sylw arbennig i welliannau penodol a wnaed i un ar hugain o fannau agored 'a flaenoriaethwyd'. Caiiff hyn ei fonitro bob blwyddyn gan yr Adroddiad Monitro Blyneddol ar y Strategaeth Mannau Agored.

Amcan 5 y CDLI: Hyrwyddo mesurau dylunio a chefnogi rhagorol, cynaliadwy a chynhwysol i liniaru effeithiau disgwylledig y newid yn yr hinsawdd.

7.5.56 Mae'r lleoedd yr ydym yn eu creu yn cael effaith ddwys ar ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddynt. Mae dylunio da: yn sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn hygyrch i bawb yn y gymuned; yn allweddol i gael pobl i dderbyn datblygiadau newydd, ac yn hanfodol i gwrdd â'n hamcanion llesiant lleol⁶¹.

7.5.57 Mae rhesymau economaidd cryf dros

gefnogi amgylcheddau sydd wedi'u cynllunio a'u dylunio'n dda. At hynny, cydnabyddir bod dylunio da yn ffactor wrth ymdrin ag iechyd a llesiant, ac wrth gydlynw'r gymuned, lleihau troseddau a lliniaru'r effeithiau a ragwelir wrth i'r hinsawdd newid.

7.5.58 Mae dylunio da, cynaliadwy a chynhwysol wrth wraidd 'Datblygiadau Cynaliadwy' a chaiff ei ddiffinio ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016). Wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, mae'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy⁶² ac mae hynny'n sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn gytbwys ac yn integredig, gan gynnwys materion sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ac yn sicrhau mynediad i bawb.

Polisi SW10: Dylunio Cynaliadwy a Chreu Lleoedd.

Rhaid i ddatblygiadau gyfrannu at y nod o greu lleoedd deniadol a chynaliadwy trwy ddylunio graenus, cynaliadwy a chynhwysol.

Caiiff meini prawf manwl eu nodi yn y Cynllun Adneuo.

7.5.59 Caiiff Polisi SW10 ei ddatblygu i gyd-fynd â'r Polisi Rheoli Datblygu Cenedlaethol trwy nodi meini prawf allweddol sy'n hyrwyddo'r dasg o ddylunio a chreu lleoedd cynaliadwy, materion nad eir i'r afael â hwy yng ngweddill y CDLI megis:

- cyd-destun y safle a thirlunio;
- dyluniad a chynllun;
- deunyddiau;
- amwynder;
- y perygl o lifogydd [gan ategu

⁶⁰ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Strategaeth Mannau Agored 2016.

⁶¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Datganiad Llesiant Lleol (2017).

⁶² Polisi Cynllunio Cymru, Adran 4.2 (Argraffiad 9, 2016).

Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol y Cyngor (Ebrill 2013)];

- isadeiledd gwyrdd a systemau draenio cynaliadwy⁶³;
- hygrychedd;
- effeithlonrwydd adnoddau a thechnolegau adnewyddadwy;
- sefydlogrwydd a halogiad tir.

7.5.60 Bydd ffurflenni ar gyfer yr Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu⁶⁴ yn monitro lefel y cyfraniad a wna'r cynllun i ddylunio a chreu lleoedd cynaliadwy.

Amcan 6 y CDLI: Cefnogi system gludiant integredig, hyrwyddo teithio llesol a sicrhau bod datblygiadau newydd yn hygyrch o ran cerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus.

7.5.61 Mae rôl a lleoliad y Fwrdeistref Sirol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn golygu y bydd cymudo i Gaerdydd ac yn ôl yn parhau'n anochel.

7.5.62 Caiff ein gwasanaeth rheilffyrdd a bysiau eu moderneiddio a'u hymgorffori yn rhwydwaith Metro De Cymru gan greu gwelliannau sylweddol o ran hyd ac amllder yr amser y cymer i deithio rhwng Merthyr Tudful a Chaerdydd.

7.5.63 Mae gwella cysylltiadau ag ardaloedd eraill ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gwella mynediad i gyflogaeth, gwasanaethau, cyfleusterau, adloniant, a chyfleoedd cymdeithasol.

7.5.64 Byddwn yn lleoli datblygiadau mewn mannau hygyrch sy'n meddu ar gysylltiadau da i drafnidiaeth gynaliadwy er mwyn lleihau'r angen i deithio, a byddwn yn ceisio gwella cyfleoedd i gerdded a seiclo.

Polisi SW11: Gwella ein rhwydwaith trafndiaeth lleol.

Byddir yn cefnogi datblygiadau i wella'r trywydd ar gyfer llwybrau cerdded a seiclo, ffyrdd, rheilffyrdd a bysiau.

Byddir yn cefnogi datblygiadau sy'n cwrdd â gofynion pawb o ran hygrychedd a symudedd ac sy'n cydymffurfio â'r safonau parcio uchaf, ar yr amod nad ydynt yn achosi lefelau annerbyniol o dagfeydd neu beryglon i ddefnyddwyr y briffordd a/neu gerddwyr.

7.5.65 Gan fod ein haneddiadau'n gymharol gryno, mae cyfleoedd da ar gael i ddewis dulliau heblaw'r car i deithio'n lleol.

7.5.66 Mae ein llwybrau presennol ar gyfer 'teithio llesol' wedi'u nodi a chyn bo hir, byddwn yn cadarnhau'r llwybrau arfaethedig. Dros gyfnod y cynllun, bydd gwelliannau'n cael eu gwneud iddynt mewn tri cham.

7.5.67 Mae cysylltiadau trafndiaeth cynaliadwy hefyd yn cael eu darparu gan y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol⁶⁵ a chan ein hawliau tramwy cyhoeddus⁶⁶. Byddai manteision cymdeithasol-economaidd sylweddol yn dod yn sgil ailgysylltu Merthyr Tudful ac Aberdâr trwy Dwnnel Abernant, ac mae hyn yn parhau i fod yn ddyhead gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sustrans.

7.5.68 Er mwyn sicrhau bod cynlluniau datblygu yn hwylus i gerddwyr a seiclwr, rydym yn cymeradwyo'r egwyddorion dylunio a nodir yn y Llawlyfr Strydoedd. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn diffinio'r safonau parcio uchaf ac yn disodli'r safonau a ddarparwyd gan y Gymdeithas Sryfewyr Sirol (CSS) yn 2008.

⁶³ Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud SCDau ar ddatblygiadau newydd yn orfodol a chael Awdurdodau Unedol i gymeradwyo a mabwysiadu systemau sy'n gwasanaethu eiddo lluosog.

⁶⁴ Llywodraeth Cymru, Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu

⁶⁵ <http://www.sustrans.org.uk/ncn/map/national-cycle-network>

⁶⁶ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2007).

7.5.69 Er mwyn dangos pa mor dderbyniol ydynt, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau sy'n cynhyrchu symudiadau sylweddol, baratoi asesiadau trafndiaeth a, lle bo'n briodol, cynlluniau teithio yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a chyngor TAN 18: Cludiant.

Polisi SW12: Gwella ein rhwydwaith trafndiaeth strategol.

Caiff tir ei ddiogelu ar gyfer 'Metro De Cymru' a deuoli'r A465.

Polisi SW13: Yr orsaf fysiau ganolog.

Bydd dyraniad T1 yn dangos safle'r orsaf fysiau ganolog newydd.

7.5.70 Caiff y Gwelliannau Strategol i'n rhwydwaith cludiant eu nodi yn y Cynllun Cyllid Trafndiaeth Cenedlaethol⁶⁷, Cynllun Trafndiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru⁶⁸, a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

7.5.71 Mae Cynllun Trafndiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru yn chwennych system drafnidiaeth fodern, hygyrch, integredig a chynaliadwy, ac mae gwelliannau parhaus i'r A465, a fydd yn gwella cysylltiadau ag Ardal Fenter y Cymoedd, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a'r M50, yn cael eu cefnogi gan y Cynllun Cyllid Trafndiaeth Cenedlaethol.

7.5.72 Bydd yr orsaf fysiau ganolog newydd a therfynfa 'Metro De Cymru' wedi'u lleoli i'r de o Ganol y Dref, a bydd hynny'n help i gynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus. Yn bwysig, bydd fflyd o gerbydau cyhoeddus newydd sy'n rhedeg ar drydan yn gwella ansawdd yr aer ac yn lleihau'r llygredd sŵn a brofir yn yr ardal hon.

7.5.73 Bydd darparu seilwaith trafndiaeth yn gynnwys yn natblygiad 'Ardal Adfywio Strategol Hoover', yn sicrhau bod patrymau teithio cynaliadwy yn cael eu hymgorffori o'r cychwyn cyntaf. Bydd llai yn defnyddio ceir preifat i gymudo ar yr A470 rhwng Merthyr Tudful a Chaerdydd, a chaiff hynny ei gefnogi trwy osod cyfleusterau parcio a theithio yn agos at rwydwaith Metro De Cymru.

Amcan 7 y CDLI: Cefnogi'r cyfleusterau cymunedol presennol ynghyd â datblygiadau addas dan arweiniad y gymuned.

7.5.74 Mae mynediad i gyfleusterau cymunedol yn rhoi cyfle i gwrdd a chymryd rhan ym mywyd y gymuned o ddydd i ddydd, yn help i frwydro yn erbyn teimladau o unigedd, ac yn fodd pwysig i greu cymunedau cydlynol.

7.5.75 Mae prosiectau lle mae'r buddion a/neu'r elw yn dychwelyd at drigolion lleol yn hynod o bwysig ac yn gatalydd ar gyfer gweithredu cymunedol. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol gyda chymunedau i sicrhau bod y prosiectau'n dderbyniol ganddynt.

Polisi SW14: Gwarchod a gwella ein cyfleusterau cymunedol lleol.

Bydd cefnogaeth yn cael ei roi i ddarparu cyfleusterau newydd a gwell ar gyfer hamdden, addysg a'r gymuned.

Efallai y caiff 'diogelu cyfleusterau cymunedol presennol' ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo a'r Canllawiau Cynllunio Atodol fel testun polisi a seiliwyd ar feini prawf.



⁶⁷ Llywodraeth Cymru, Cynllun Cyllid Trafndiaeth Cenedlaethol (2015).

⁶⁸ Cynllun Trafndiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru (2015).

7.5.76 The provision and retention of community facilities, which are wide ranging in nature, contributes significantly to our local well-being objective of developing safe and inclusive communities. Furthermore, they foster a sense of belonging and enhance the County Borough's strong cultural and sporting traditions.

7.5.77 However, many are threatened by a wide range of economic factors and face challenges to continue operating. A criterion based policy and supplementary planning guidance supporting their appropriate protection may be developed and included in the deposit plan.

7.5.78 As accessible locations for the provision of a wide range of local services, we recognise the importance of our town and local centres. The economic well-being objectives support their important retail and commercial function and proposals for new commercial community facilities will be considered accordingly.

7.6 Gwella ein Lles Diwylliannol

Amcan 8 y CDLI: Diogelu, gwella a hyrwyddo treftadaeth ac asedau diwylliannol.

7.6.1 Mae cynnal a chadw adeiladau o werth hanesyddol yn effeithio'n sylweddol ar falchder a phleser y gymuned yn ei hamgylchedd ac ar atyniad yr ardal i ymwelwyr.

7.6.2 Ar ôl bod y ganolfan fwyaf cynhyrchol yn y byd am greu haearn, mae gan Ferthyr Tudful sylwedd dwys i'w hanes a'i diwylliant ac mae hynny'n gaffaeliad sylweddol o ran apêl a nodweddion unigryw'r Fwrdeistref Sirol. Yn unol â hynny, ein hamcan llesiant lleol yw cefnogi cymunedau i amddiffyn, datblygu a hyrwyddo'u treftadaeth a'u hasedau diwylliannol.

7.6.3 Mae'r dasg o warchod a deall ein treftadaeth yn cael ei hwyluso o gryn dipyn gan Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful a bydd ein dull rhagweithiol tuag at yr amgylchedd hanesyddol i'w weld yn y 'Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol' a gaiff ei chwblhau erbyn adeg paratoi'r cynllun adneuo.

CW15 Polisi: Amgylchedd Hanesyddol.

Bydd lleoliad ac integriti ein hasedau amgylchedd hanesyddol dynodedig yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Mae'n rhaid i ddatblygiadau o fewn Ardaloedd Cymeriad Trefol ac Ardaloedd Archeolegol Sensitif barchu'u cymeriad arbennig a'u pwysigrwydd archeolegol.

7.6.4 Er bod llawer o'n hamgylchedd hanesyddol yn fregus ac yn hawdd ei beryglu gan gynlluniau gwael, gellir ennyn newid cadarnhaol a hybu menter ac adfywiad trwy ei warchod yn ofalus.

7.6.5 Dyma rai o asedau dynodedig y Fwrdeistref Sirol sy'n ymwneud â'i hamgylcheddau hanesyddol:

- Merthyr Tudful: tirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol yng Nghymru.
- Gelli-gaer: tirwedd gyffredin o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru.
- Castell Cyfarthfa (ar y gofrestr o dirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru).
- Aberfan: mynwent, gardd goffa, cyn domen lo ac ardal sleidiau (ar y gofrestr o dirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru).
- Mynwent Cefn Coed (ar y gofrestr o dirweddau, parciau a gerddi o



ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru).

- Henebion Rhestredig.
- Adeiladau Rhestredig gan gynnwys Castell Cyfarthfa, adeilad rhestredig Gradd I.
- Ardaloedd Cadwraeth.

7.6.8 Mae Council Street ac Urban Street, Cwmfelin, Parc Cyfarthfa, Dowlais, Canol Tref Merthyr Tudful, Morgantown, Thomastown a Threharris i gyd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r mesurau a nodwyd i'w diogelu a'u gwella wedi'u manylu yn eu harfarniadau ac yn y cynlluniau rheoli cysylltiedig.

Polisi CW16: Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa.

Mae Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa wedi'i nodi ar y diagram allweddol fel datblygiad treftadaeth a fydd yn denu ymwelwyr ac yn ategu'r hyn sydd i'w gynnig gan Gastell Cyfarthfa a'r parc.

7.7 Gwella ein Llesiant Amgylcheddol

Amcan 9 y CDLI: Gwella cynefinoedd sy'n cyfrannu at gydnerthedd a chysylltedd yr ecosystem ac sy'n cynnal rhywogaethau a warchodir.

7.7.1 Mae ein hamgylchedd naturiol yn cynnig gwasanaethau pwysig sy'n hanfodol i'n llesiant. Mae ecosystemau, rhywogaethau, dŵr croyw, tir, mwynau a'r aer i gyd yn cynhyrchu gwerth; fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael eu cyfrif mewn modelau ariannol, a gall hynny arwain at ymelwa arnynt yn ormodol er budd byrdymor yn hytrach na'u meithrin er budd hirdymor.

7.7.2 Mae'r wybodaeth am rywogaethau a ddarperir gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, ynghyd â'r Adroddiad⁶⁹ ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol o gymorth inni ddeall

yr amgylchedd ac yn cadarnhau bod ein 'cyfalaf amgylcheddol naturiol' yn dirywio.

7.7.3 Mae'r newid yn ein hinsawdd hefyd yn fygythiad sylweddol i'n bioamrywiaeth. Rhagwelir y bydd rhywogaethau brodorol yn dioddef wrth iddynt chwilio am lwybrau mudo newydd ac y bydd rhywogaethau estron ac ymledol yn ffynnu. Yn yr haf, bydd tywydd cynhesach a sychach yn lleihau llif afonydd ac yn prinha'u argaeledd dŵr. Bydd pobl, eiddo ac isadeiledd yn debygol o gael eu heffeithio gan lifogydd yn sgil y tywydd eithafol.

7.7.4 Ein hamcan llesiant lleol yw bod cymunedau'n gwarchod, yn gwella ac yn hyrwyddo'u hamgylchedd naturiol a'u cefn gwlad. Mae Cynllun Gweithredu a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Merthyr Tudful yn dwyn ynghyd llu o grwpiau amgylcheddol sy'n weithredol yn y Fwrdeistref Sirol, gyda'r nod o wrthdroi'r broses o ddarnio ein hamgylchedd naturiol trwy adfer rhwydweithiau ecolegol a gwella arferion rheoli tir.

7.7.5 Wrth amddiffyn, rheoli a gwella ein hasedau amgylcheddol, mae'r strategaeth yn ceisio darparu ar gyfer twf. Yn bwysicaf oll, mae'n rhaid osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000, ac mae hyn yn cael ei ystyried yn fanwl gan yr Adroddiad Cychwynnol ar Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd⁷⁰.

Polisi EnW17: Yr Amgylchedd.

Rhaid i ddatblygiadau gyfrannu at greu amgylchedd sy'n gynaliadwy ac yn cysylltu â'i ecoleg. Er mwyn cyflawni hyn:

- i bydd disgwyl i ddatblygiadau amddiffyn 'seilweithiau gwyrdd'. Ni fydd unrhyw golled i gysylltedd yr ecosystem, cynefinoedd blodeuol, nodweddion

⁶⁹ Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru (2015).

⁷⁰ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Adroddiad Cychwynnol ar Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2017.

daearegol a phridd nodedig lleol, yn cael ei gefnogi oni fydd modd lliniaru'r effeithiau neu gymryd mesurau cydadferol.

- II. bydd nodweddion a gwerth cadwraethol y Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a'r Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol yn cael eu diogelu a'u gwella oni fydd modd lliniaru'r effeithiau neu gymryd mesurau cydadferol priodol.

Polisi EnW18: Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Er mwyn hyrwyddo mynediad i natur, cynigir bod Gwarchodfeydd Natur Lleol yn ffurfio rhan o'r mannau agored dynodedig canlynol:

- Bedlinog - Hen safle pwll glo Coed yr Hendre/Nant Llwynog
- Cyfarthfa - Scwrfa (Caeau Gellideg)/Coetir Cwm Ffrwd
- Dowlais - Tip Ivor
- Gurnos - Y Graig
- Ynysowen – Bryngolau
- Parc - Cwm Taf a Thip Cefn Coed
- Penydarren - Goitre Lane
- Plymouth - Pentrebach/Tip Nant-yr-Odin
- Y Dref - Cwm Blacs
- Treharris - Cefn Glas
- Penydarren, Dowlais a'r Dref - Parc Newlands
- Y Faenor - Cwm Taf Fechan; yr unig Warchodfa Natur Leol

Polisi EnW19: Safleoedd a rhywogaethau a warchodir

Byddir yn amddiffyn Cwm Glo/Glyndyrys a Thaf Fechan sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau o bwys mawr I Gymru.

7.7.6 Mae gan y Fwrdeistref Sirol ddaeareg gyfoethog a chymysgedd o gynefinoedd arbennig sydd wedi'u dylanwadu gan ddiwydiannau'r oes o'r blaen ac sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf ar gyfer Amrywiaeth Biolegol yng Nghymru. Mae'r ddau SoDdGA sef Cwm Taf a Chwm Glo/Glyndyrys, yn enghreifftiau o dirweddau ôl-ddiwydiannol sy'n cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig, gan gynnwys capiau cwyr, gwybedogau brith, trochwyr, eogiaid, ystlumod a dyfrgwn.

7.7.7 Mae Safleoedd o Bwys Cadwraeth Natur⁷¹ (SoBCN) yn cynnwys hyd at 4040 hectar o dir ac mae Safleoedd Daearegol Rhanbarthol Pwysig⁷² (RIGS) wedi'u nodi yn y mannau gwledig a threfol. Cynigir bod Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNRs) yn cael eu sefydlu ar draws y Fwrdeistref Sirol, fel modd i gysylltu pobl â natur ac ymateb i'r Strategaeth Mannau Agored.

7.7.8 Mae mannau agored a chynlluniau da yn creu tirluniau rhagorol a systemau draenio cynaliadwy, a chyda Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safleoedd o Bwys Cadwraeth Natur, Safleoedd Daearegol Rhanbarthol Pwysig a Gwarchodfeydd Natur Lleol, maent yn hybu cysylltedd o fewn yr ecosystem.

Amcan 10 y CDLI: Diogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad y dirwedd a chefn gwlad.

7.7.9 Gan gyfrannu'n fawr at atyniad ein Bwrdeistref Sirol, mae ein tirwedd hefyd yn hanfodol i ddyfodol cynaliadwy. Yn benodol, mae gwarchod, rheoli a chynllunio tirwedd integredig, yn hanfodol i liniaru achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

⁷¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Adroddiad Cychwynnol ar Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 2017.

⁷² Arolwg Daearegol Prydain, Archwiliad o Safleoedd Daearegol Rhanbarthol Pwysig yn Ne Cymru.

Polisi EnW20: Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Rhaid i ddatblygiadau o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig fod yn sensitif i'w nodweddion arbennig.

7.7.10 Yn unol â'r dull o warchod tirweddau a gymerwyd gan awdurdodau cyfagos (Caerffili a Rhondda Cynon Taf), rydym wedi nodi tirweddau o werth lleol arwyddocaol gan ddefnyddio methodoleg ddiweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru⁷³.

7.7.11 Mae cymeriad a hynodrwydd lleol y tirweddau hyn, ynghyd â'r nodweddion hynny sy'n rhoi iddynt eu hymdeimlad o le, yn cael eu hesbonio yn ein papur cefndir ar 'Ardaloedd Tirwedd Arbennig'⁷⁴, ac yn tarddu o'r gwaith hwnnw, cafodd 5 Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) eu cynnig:

- Nant Morlais a Chwm Taf Fechan
- Winchfawr
- Ochr Orllewinol Merthyr
- Pontygwaith
- Gelligaer a Thaf Bargoed

7.7.12 Er mwyn sicrhau bod Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu datblygu.

7.7 Gwella ein Llesiant Economaidd

Amcan 11 y CDLI: Darparu a diogelu tir priodol ar gyfer datblygu'r economi a sgiliau.

Amcan 12 y CDLI : Cryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig.

7.8.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio datblygiad economaidd yn fras er mwyn cynnwys unrhyw fath o ddatblygiad sy'n creu cyfoeth, swyddiacincwm. Mae'r fersiwn drafft o'n Strategaeth Twf Economaidd (EGS) yn tynnu ar ddatblygiadau

cededlaethol, rhanbarthol a lleol pwysig fel eu bod yn cefnogi ymagwedd gyfannol tuag at dwf economaidd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'n cynnig y weledigaeth ganlynol ar gyfer tyfu'r economi leol:

"Sefydlu Merthyr Tudful fel canolfan allweddol yn y Brifddinas-Ranbarth gydag: economi amrywiol a bywiog; gweithlu medrus a hyblyg sy'n meddu ar gymwysterau gwell a chyflogau da; a gweithlu sy'n gwella amgylchedd, economi, cymdeithas a diwylliant y Fwrdeistref Sirol er mwyn gwella llesiant ei thrigolion lleol."

7.8.2 Ein hamcan llesiant lleol yw datblygu gweithlu'r dyfodol⁷⁵ a chreu swyddi gwerth uchel. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'i hun i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ac i ddêl gwerth £1.2 biliwn er mwyn datgloi £4 biliwn o fuddsoddiad preifat, ysgogi twf economaidd sylweddol a chreu 25,000 o swyddi. Mae'r elfennau mwyaf perthnasol o Adroddiad y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth⁷⁶ (2016) ar Fargen Ddinesig y Brifddinas-Ranbarth, wedi'u hamlygu yn ein Strategaeth Twf Economaidd:

- manteisio i'r eithaf ar Fetro De Cymru er mwyn cymell pobl i gymryd rhan yn y farchnad lafur;
- buddsoddi mewn addysg (o'r blynyddoedd cynnar i'r brifysgol), sgiliau a chyflogadwydd fel y brif ffordd y gall unigolion gael mynediad i gyfleoedd a'r brif ffordd y gall cwmnïau wella'u cynhyrchiant, a;
- cefnogi pob busnes - boed hwy'n rhai newydd neu sefydledig - fel eu bod yn ffynnu yn y tymor hir trwy strategaethau sy'n hyrwyddo arloesedd, a chan sicrhau cyllid ar eu cyfer.

⁷³ Nodyn Cyfarwyddyd LANDMAP 1: LANDMAP ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig 2016.

⁷⁴ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Papur Cefndir 2017.

⁷⁵ Ymchwil i Anghenion Sgiliau Cyflogwyr a Bylchau Hyfforddiant ym Merthyr Tudful, Adroddiad Terfynol ar y Strategaeth Sgiliau a Hyfforddiant (Wavehill Cyf, Tachwedd 2017).

⁷⁶ Adroddiad y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2016.

7.8.3 Yn unol â hynny, bydd y strategaeth a ffefrir:

- yn cefnogi Strategaeth Twf Economaidd drafft y Cyngor trwy fanteisio ar rôl ganolog y Fwrdeistref Sirol ym Mlaenau'r Cymoedd a thrwy hynny, yn helpu i feithrin ffyniant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- yn gwneud y gorau o'r potensial economaidd a gynigir gan welliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth, gan wella cysylltedd o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac â rhanbarthau eraill y DU.
- yn sicrhau ystod a dewis o dir cyflogaeth ac adeiladau busnes mewn lleoliadau cynaliadwy, yn annog mentergarwch, yn hyrwyddo twf busnesau cynhenid o bob math a maint, ac yn denu buddsoddiad o'r tu allan.

7.8.4 Caiff hyn oll ei wireddu trwy ddyrannu a diogelu tir cyflogaeth sy'n cysylltu'n dda â'r rhwydwaith trafndiaeth ac sydd hefyd yn ategu ein hamcanion eraill, yn enwedig y nod o ddatblygu canolfannau trefol a lleol sy'n ddeniadol, yn fywiog ac yn hyfyw, a'r nod o warchod a gwella cymeriad ac ymddangosiad y dirwedd a chefn gwlad.

Polisi EcW21: Darparu tir cyflogaeth.

Er mwyn cefnogi datblygiad economaidd, bydd y cynllun adneuo'n dyrannu hyd at 30 hectar (yn ei gyfanrwydd) o dir cyflogaeth (B1, B2, B8) fel Prif Ardal Twf yn y lleoliadau canlynol:

- **Ardal Adfywio Strategol Hoover**
- **Ffordd Goatmill**
- **Ffos-y-Frân**

7.8.6 Mae ein gwaith ymchwil cychwynnol yn awgrymu y bydd angen hyd at 30 hectar o dir cyflogaeth, gyda llawer ohono'n arwain at adleoli neu ddisodli adeiladau cyflogaeth. Er bod tystiolaeth yn dangos bod yna alw am adeiladau â gwasanaeth 'Gradd A' (fel, er enghraifft, y rhai a ddarperir gan Ganolfan Fusnes Orbit), mae adeiladau cyflogaeth newydd yn ansicr o fod yn hyfyw heb gymhorthdal. Ychydig o adeiladau newydd sydd wedi'u creu ar gyfer cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf⁷⁷.

7.8.7 Bydd yr union faint o dir a ddyrannwyd er dibenion cyflogaeth yn y cynllun adneuo yn cael ei benderfynu'n unol â chanllawiau arfer Llywodraeth Cymru: Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd⁷⁸ a'r wybodaeth a gesglir tan 31 Mawrth, 2018, gan y gwaith monitro.

7.8.8 Wrth ddyrannu ar gyfer cyflogaeth, mae'n bwysig sicrhau dewis o safleoedd ar gyfer diwydiannau cyffredinol a diwydiannau ysgafn. Ar ôl asesu safleoedd a hyrwyddwyd er defnydd cyflogaeth, rydym yn hyderus fod yna ddigon o gyfleoedd yn cael eu cyflwyno, o fewn y Brif Ardal Twf, gan 'Ardal Adfywio Strategol Hoover', Ffordd Goatmill a Ffos-y-Frân.

7.8.9 Mae dyrannu tir cyflogaeth fel rhan o 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' yn cynnig integreiddiad â Metro De Cymru. Mae'r tir yn Ffordd Goatmill a Ffos-y-Frân yn cysylltu'n dda â'r A4060.

7.8.10 Mae lefel a dosbarthiad y dyraniad dan sylw'n ategu strategaeth trafndiaeth y cynllun a fydd yn gweld y Fwrdeistref Sirol yn cael ei chysylltu'n well â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Fetro De Cymru.

⁷⁷ Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2016.

⁷⁸ Canllawiau Arfer Llywodraeth Cymru: Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd (2015).



Polisi EcW22: Diogelu safleoedd cyflogaeth.

Er mwyn diogelu safleoedd busnes a chyflogaeth y Fwrdeistref Sirol o ran eu swyddogaeth cyflogi, caiff datblygiad ei ganiatáu ym Mharc Busnes Rhydycar os bydd:

- yn syrthio o fewn Dosbarth Defnydd B1;
- yn darparu cyfleuster neu wasanaeth ategol er defnydd cyflogaeth sylfaenol.

Ym Mhengarnddu, Ystad Ddiwydiannol Pant, Ffordd Goatmill, Parc Busnes Triongl a Pharc Diwydiannol Merthyr Tudful, caiff datblygiad ei ganiatáu os bydd:

- yn syrthio o fewn Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8; neu
- yn darparu cyfleuster neu wasanaeth ategol er defnydd cyflogaeth sylfaenol; neu
- yn wasanaeth masnachol derbyniol nad yw'n gysylltiedig â defnyddiau dosbarth B; neu
- yn gyfleuster rheoli gwastraff priodol sy'n gydnaws â gweithgareddau diwydiannol a masnachol presennol.

Os bydd cynigion datblygu yn cynnwys defnyddiau heblaw'r rhai a bennwyd a'u bod yn arwain at golli tir/eiddo cyflogaeth yn y safleoedd uchod, yna ni fyddant yn cael eu caniatáu, oni bai y gellir dangos bod y defnydd presennol yn amhriodol neu fod y tir/eiddo yn ddiangen i ofynion y farchnad gyflogaeth.

7.8.11 Mae'r parciau busnes a diwydiant presennol yn rhan annatod o'r wedd drefol ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein sylfaen economaidd. Yn sgil hynny, mae'r strategaeth yn ceisio'u diogelu rhag datblygiad a fyddai'n erydu eu cymeriad unigol, cymeriad sydd wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd i ateb gofynion economaidd.

7.8.12 Gall colli mwy a mwy o dir cyflogaeth arwain at erydiad graddol o'r ardal gyflogaeth. Heb reolaeth, gall yr ardal ddarnio ac ildio

dan bwysau i ddibenion eraill, gan arwain at golli safleoedd cyflogaeth ar draul yr economi leol.

7.8.13 Yn unol â hynny, mae'r strategaeth yn ceisio diogelu tir pwysig a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer swyddfeydd, cyflogaeth a warysau diwydiannol (B1, B2 a B8), er mwyn iddynt barhau i ddarparu cyflogaeth hygyrch. At hynny, mae'r strategaeth yn ceisio dwysáu ac adnewyddu safleoedd sy'n wag, yn dirywio neu'n cael eu tanddefnyddio.

Amcan 13 y CDLI: Datblygu trefi a chanolfannau lleol fel mannau hygyrch, deniadol, hyfyw a bywiog.

7.8.14 Dengys ein gwaith ymchwil bwysigrwydd y Fwrdeistref Sirol fel cyrchfan manwerthu i breswylwyr a phobl ymhellach i ffwrdd. Mae hyn yn adlewyrchu safle'r Fwrdeistref Sirol fel anheddiad o bwys allweddol a hanfodol ym Mlaenau'r Cymoedd.

7.8.15 Gan ei fod yn brif ganolbwynt ar gyfer cludiant cyhoeddus ac yn gyrchfan hygyrch ar gyfer manwerthiant, hamdden a gwasanaethau, mae canol y dref yn bwysig i'n trigolion, ac fe'i cefnogir gan y strategaeth. Yn yr un modd, cefnogir rôl allweddol ein canolfannau lleol wrth ddarparu gwasanaethau cymunedol, siopau, busnesau, cyflogaeth a mynediad i gludiant cyhoeddus.

Polisi EcW23: Hierarchaeth Manwerthu - cefnogi ein darpariaeth manwerthu.

Canol Tref Merthyr Tudful yw'r lleoliad a ffeifir ar gyfer datblygiadau manwerthu ac fe'i gosodwyd ar ben yr hierarchaeth manwerthu o flaen canolfannau lleol megis Dowlais, Gurnos, Cefn Coed a Heol Aberhonddu/Morgantown, Troedyrhiw, Aberfan, Treharris a'r ganolfan leol newydd sy'n ffurfio rhan o 'Ardal Adfywio Strategol Hoover'.

Bydd unrhyw gynigion y tu allan i'r canolfannau uchod yn amodol ar asesu'r angen ac ar weithredu'r 'prawf cymalog' yn llym. Yna, yr unig ffordd y gellir caniatáu'r cynigion hyn yw os ydynt yn osgoi niwed i fywiogrwydd a hyfywedd y dref/ganolfan leol.

EcW24 Polisi: Dyranadau Manwerthu

Er mwyn cefnogi Canol y Dref, caiff tir ei ddyrannu ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachu yng ngorsaf fysiau Merthyr Tudful.

7.8.16 Mae ein hastudiaeth manwerthu ddrafft yn dangos bod angen, dros gyfnod y cynllun, hyd at 6,281 o fetrau sgwâr gros ar gyfer arwynebedd llawr, sy'n cynnwys 409 o fetrau sgwâr ar gyfer nwyddau cyfleus, 3,736 o fetrau sgwâr ar gyfer nwyddau cymharol a 2,136 o fetrau sgwâr ar gyfer bwyd a diod.

7.8.17 Er mwyn cefnogi'r dref a'r canolfannau lleol, mae'r strategaeth yn cynnig dull dilyniannol o weithredu wrth leoli safleoedd manwerthu a datblygiadau masnachu ategol eraill, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.

7.8.18 Er enghraifft, os nad yw canolfan yn meddu ar safle neu adeilad addas ar gyfer manwerthu a datblygiadau masnachu ategol eraill, dylid ystyried safleoedd ar gyrion y ganolfan, ac os nad ydynt yn addas neu ar gael, ddim ond bryd hynny y dylid rhoi ystyriaeth i safleoedd y tu allan i ganolfan.

7.8.19 Gall datblygiadau masnachu ategol eraill gynnwys caffis a bwytai, banciau, a chyfleusterau hamdden, adloniant a chymuned.

7.8.20 Pan gaiff datblygiad ei leoli y tu allan i ganolfan, mae'n rhaid cyfiawnhau'r angen amdano'n foddhaol a chynnal 'asesiad effaith manwerthu' ar gyfer pob cais sy'n ymwneud ag arwynebedd llawr gros o

2,500 metr sgwâr neu fwy. At hynny, efallai y bydd angen cynnal 'asesiad effaith' o gynigion datblygu llai sy'n gymesur â'u heffeithiau posibl.

Polisi EcW25: Datblygu'r Dref a Chanolfannau Lleol.

Caiff datblygiadau sy'n gwella bywiogrwydd a hyfywedd y Dref a'r Canolfannau Lleol eu cefnogi.

O fewn Prif Ardal Siopa Canol y Dref, caiff y newid defnydd o A1 i ddefnydd 'Dosbarth A' arall ei ganiatáu lle:

- mae o leiaf 75% o'r defnyddiau masnachol ar lefel stryd o fewn y Brif Ardal Siopa yn parhau i fod A1, ac;
- mewn unrhyw res o bum siop, ceir hyd at ddau eiddo cyfagos sydd ddim yn perthyn i gategori A1.

7.8.21 Rydym yn cydnabod bod yn rhaid cymysgu defnyddiau manwerthu'n ofalus â defnyddiau diwylliannol, hamdden ac eraill, os yw Canol y Dref am barhau i ffynnu. Mae Partneriaeth Canol y Dref wedi arwain at brosiectau sydd wedi ysgogi gweithgareddau, gan hyrwyddo amrywiaeth o ddefnyddiau a chynyddu hygyrchedd ac atyniad y lle, yn fwyaf nodedig trwy greu Ardal Gwella Busnes sef Calon Fawr Merthyr Tudful.⁷⁹

7.8.22 Mae prosiect arobryn Cyswllt Canolog Afon Taf ynghyd â'r gwaith o ailddatblygu Coleg Merthyr Tudful, Capel Soar a Sgwâr Penderyn, i gyd yn symbol o'r holl welliannau sylweddol a gafwyd yn ein mannau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf.

7.8.23 Caiff y rhain eu hategu cyn hir gan Fenter Treftadaeth Treflun yn Ardal Dreftadaeth Pontmorlais ynghyd â gorsaf fysiau ganolog a therfynfa newydd fel rhan o brosiect Metro De Cymru.

⁷⁹ Canllawiau Arfer Llywodraeth Cymru: Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd (2015).



7.8.24 Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol fod cymeriad yr ardal fanwerthu graidd yng Nghanol y Dref yn cael ei ddiogelu, ac mae'r strategaeth yn cynnig bod prif ardal siopa yn cael ei phennu er mwyn cadw'i chymeriad.

Amcan 14 y CDLI: Cefnogi datblygiadau addas ar gyfer twristiaeth, hamdden ac adloniant, ac annog y diwydiant twristiaeth i weithredu trwy gydol y flwyddyn.

7.8.25 Mae twristiaeth yn hanfodol i economi Merthyr Tudful. Mae ei lleoliad, ynghyd â'i hamgylchedd a'i threftadaeth naturiol ac adeiledig, yn rhoi cyfle iddi hyrwyddo'i henw da fel tref sy'n croesawu ymwelwyr. Mae'r strategaeth yn cymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfan⁸⁰ y Cyngor trwy gefnogi amrywiaeth o gyfleusterau rhagorol i dwristiaid o ran hamdden, adloniant a llety.

7.8.26 Mae'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan yn goruchwyllo rhaglen o welliannau i'n cynigion ar gyfer twristiaeth.

7.8.27 Caiff y manteision a ddaw i'n heconomi yn sgil twristiaeth eu monitro trwy ddefnyddio'r model STEAM sef y 'Scarborough Tourism Economic Activity Monitor'. Mae mwyafrif ein hymwelwyr yn dod am y dydd gyda'r rhan fwyaf ohonynt am brofi ein treftadaeth ddiwylliannol, ein gweithgareddau, ein hatyniadau a'n siopau. Mae ein hymwelwyr dros nos yn tueddu i ddefnyddio ein prif atyniadau fel BikePark Cymru ac yn gwneud defnydd o'n lleoliad gwyh fel canolfan i archwilio ardaloedd cyfagos.

7.8.28 Mae datblygu twristiaeth o fewn ffiniau'r anheddiad yn cael ei gefnogi ar y cyfan. Pan fydd cynigion twristiaeth yn cael eu lleoli y tu allan i ffiniau'r anheddiad, rhaid cyfiawnhau hynny'n llawn a dangos eu bod yn hyfyw.

Amcan 15 y CDLI: Hyrwyddo ynniadnewyddadwy a charbon isel.

7.8.29 Mae cyllidebu carbon yn fater datganoledig yng Nghymru, ac mae'n ddull sydd ar fin cael ei gyflwyno i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd hynny'n galw am gynnydd yn y defnydd o dechnoleg ynni sy'n adnewyddadwy ac yn isel o ran carbon – mae hyn yn hanfodol os ydym am gyflawni targedau datgarboneiddio.

7.8.30 Mae cynhyrchu incwm trwy arbed gwariant ar ynni yn rhinwedd arall sy'n deillio o ddefnyddio technoleg ynniadnewyddadwy a charbon isel yn lleol. Amcangyfrif bod £90 miliwn yn cael ei wario ar ynni bob blwyddyn o fewn y Fwrdeistref Sirol. Byddai ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio yn yr ardal o gymorth i gadw cyfran o'r gwariant hwnnw'n lleol.

7.8.31 Er bod cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy yn bwysig, ni ddylid anghofio'r mesurau effeithlonrwydd ynni a'r lleihad yn y galw cyffredinol.

Dyfodol ynni adnewyddadwy

7.8.32 Er mwyn sefydlu pa adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael, comisiynwyd Regen SW (sefydliad arbenigol nid-er-elw) i gynnal asesiad yn unol â chanllawiau cenedlaethol⁸¹. Mae'r gwaith hwn ar fin dod i ben ac, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd yn llywio cynnwys y 'Cynllun Adneuo'.

7.8.33 Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn esbonio bod cyfleoedd ar gyfer trydan adnewyddadwy masnachol wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd gan allu'r grid i dderbyn cysylltiadau newydd. Mae'r brif linell drydan 132 kV i Ferthyr Tudful o'r gorllewin wedi cyrraedd ei chapasiti thermol o ran cysylltiadau'i generadur, ac mae newidyddion yr is-orsaf swmpgyflenwi wedi cyrraedd eu capasiti thermol hefyd.

⁸⁰ Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cynllun Rheoli Cyrchfan (2015 – 2018).

⁸¹ Canllawiau Arfer Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – pecyn cymorth i gynllunwyr.

7.8.34 Er y bydd y cyfyngiadau hyn yn parhau'n arwyddocaol am nifer o flynyddoedd, ni fyddant yn gwarafun cysylltiadau newydd yn hwyrach yng nghyfnod y cynllun. Mae Western Power Distribution, y Gweithredwr Rhwydwaith Rhanbarthol, yn archwilio nifer o atebion er mwyn ceisio datrys y cyfyngiadau i'r rhwydwaith.

7.8.35 Oherwydd natur gymharol drefol Merthyr Tudful, bydd ynni adnewyddadwy sy'n gysylltiedig ag adeiladau yn chwarae rôl hanfodol, gan nad yw ei rwydwaith, yn gyffredinol, yn dioddef o'r un cyfyngiadau â chynlluniau masnachol, ac mae potensial sylweddol i ynni solar ar raddfa ddomestig.

Polisi EcW26: Ynni Adnewyddadwy.

Bydd y Cynllun Adneuo yn cynnwys polisi ar ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel.

Amcan 16 y CDLI: Sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau.

7.8.36 Mae daeareg waelodol y Fwrdeistref Sirol yn cyflenwi mwynau i'r farchnad ynni ac agregau. Prif adnoddau'r Fwrdeistref Sirol yw glo, calchfaen a thywodfaen. Gwyddys bod yna adnoddau tywod a graean arwynebol ar gael er nad oes sôn eu bod wedi'u datblygu'n fasnachol yn ddiweddar.

7.8.37 Dyma rôl y cynllun o ran Mwynau:

1. Diogelu'r adnoddau a'r cronfeydd wrth gefn.
2. Cyfrannu at gyflenwad digonol a chynaliadwy yn y rhanbarth o agregau ar gyfer y diwydiant adeiladu, a hyrwyddo defnydd effeithlon a phriodol ohonynt, gan gynnwys defnyddio agregau sydd wedi'u hailgylchu lle bo'n bosibl.
3. Nodi'r mannau hynny lle bydd cloddio am lo yn y dyfodol yn annerbyniol.
4. Sicrhau bod effeithiau'r cloddio yn cael eu rheoli'n ofalus.

7.8.38 Mae'n rhaid i ni gyfrannu at gyflenwad y rhanbarth o agregau crai tirol. Mae ein dosraniad rhanbarthol wedi'i nodi yn y 'Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS)'⁸² ac wedi'i gyfuno ag Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rhaid i ni hefyd ddiogelu adnoddau mwynol ar gyfer anghenion y cenedlaethau i ddyfod. Mae hyn yn cael ei fonitro yn Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru⁸³.

7.8.39 O ran agregau tirol, bydd 0.82 miliwn tunnelli o greigiau mâl yn cael ei chyddosrannu inni bob blwyddyn yn y dyfodol. Mae hyn yn cyfateb i 20.5 miliwn tunnelli o greigiau mâl dros y 25 mlynedd (2011-2036) a gwmpesir gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

7.8.40 Mae chwareli Faenor a Gelligaer yn meddu ar gronfeydd sylweddol o greigiau mâl wrth gefn, a byddant yn parhau am fwy na 10 mlynedd y tu hwnt i ddiwedd cyfnod y CDLI newydd, ac o'r herwydd, does dim angen dyraniadau pellach gogyfer creigiau mâl.

7.8.41 Mae Cynllun Adfer Tir Dwyrain Merthyr yn bwrw yn ei flaen yn raddol ac mae'n golygu cloddio tua 11 miliwn tunnelli o lo. Bellach, mae'r gwaith wedi cyrraedd ei ddyfnder mwyaf a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn 2025.

7.8.42 Mae'n rhaid rheoli'r effeithiau a gwyd yn sgil cloddio yn ofalus. Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cynnig Canllaw Arfer Da ar gyfer Amodau Cynllunio Gwastraff ac yn nodi'r arfer gorau ar gyfer rheoli safleoedd mwynau trwy'r system gynllunio.

Polisi EcW27: Cyflenwi mwynau'n gynaliadwy.

Bydd y Cynllun Adneuo'n cynnwys polisi ar fwynau.

⁸² Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru, Datganiad Technegol Rhanbarthol, Adolygiad 1af 2014.

⁸³ Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru, Adroddiad Blynyddol 2014.

Amcan 17 y CDLI: Hyrwyddo defnydd effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau a sicrhau rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff.

7.8.43 Mae cynllun busnes hirdymor y Cyngor ar gyfer rheoli gwastraff yn nodi'r weledigaeth, yr amcanion a'r gweithgareddau ar gyfer rheoli gwastraff hyd at 2025. Mae'n parhau â gwaith y Prosiect Cydweithredu ar Reoli Gwastraff i greu mwy o gyfle i ailgylchu gwastraff cartrefi.

7.8.44 Bydd yr angen am gyfleusterau gwastraff pellach yn adlewyrchu'r nodau rheoli gwastraff a restrwyd yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' (Mehefin 2010) - y strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru – a Chynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (Gorffennaf 2012). Mae'n anodd rhagweld yn gywir beth fydd anghenion y dyfodol o ran gwaredu gwastraff ac adennill gwastraff dinesig cymysg. Yn unol â hynny, bydd angen monitro'r mater bob blwyddyn ar lefel ranbarthol er mwyn canfod:

- a oes digon o gapasiti tirlenwi yn cael ei gynnal?
- a fydd digon o gapasiti'n ar gael i drin ac adfer gwastraff trefol cymysg?
- a yw patrwm gofodol y ddarpariaeth yn briodol i gyflawni'r anghenion a nodwyd? ac
- a oes angen i awdurdodau cynllunio lleol weithredu ymhellach i fynd i'r afael â materion na ellir mo'u rhagweld?

7.8.45 Cyflwynir y canfyddiadau trwy'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff, sy'n cynnwys argymhellion i ddarparu mwy o gyfleusterau gwastraff. Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer De-ddwyrain Cymru (2016)⁸⁴ yn dod i'r casgliad nad oes angen mwy o gapasiti

tirlenwi yn ranbarth y De-ddwyrain, ac y dylai cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer trin gwastraff gweddilliol gael eu hasesu'n ofalus er mwyn sicrhau na fyddai'r cyfleuster hwnnw'n arwain at orddarpariaeth.

7.8.46 Mae gan y cynllun rôl ddeublyg o ran gwastraff. Mae'r cynllun yn dilyn yr 'hierarchaeth gwaredu gwastraff' (h.y. cyn rhoi ystyriaeth i'w waredu, ceisio lleihau gymaint ohono â phosibl ac yna, ceisio'i ailddefnyddio, ei adennill a'i ailgylchu). Yn sgil hynny, mae'n rhaid i'r cynllun:

1. gefnogi dulliau casglu ac ailgylchu cynaliadwy ar gyfer Gwastraff Trefol trwy gynnal a gwella rhwydwaith integredig o gyfleusterau yn y Fwrdeistref Sirol;
2. hyrwyddo rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli cynaliadwy ar gyfer gwastraff masnachol a diwydiannol sy'n gyson ag anghenion y De-ddwyrain.

7.8.47 Polisi EcW21: mae Safleoedd Cyflogaeth Presennol yn nodi safleoedd diwydiannol priodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

7.8.48 Mae'n rhaid rheoli'r effeithiau a gwyd yn sgil datblygiadau cloddio yn ofalus. Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cynnig Canllaw Arfer Da ar gyfer Amodau Cynllunio Gwastraff ac yn nodi'r arfer gorau ar gyfer rheoli safleoedd gwastraff trwy'r system gynllunio.

Polisi EcW28 y CDLI: Cyfleusterau Gwastraff.

Caiff cyfleusterau trin gwastraff eu caniatáu ar yr amodau canlynol yn unig: maent yn ateb anghenion canfyddadwy, maent wedi'u gosod i ffwrdd o leoliadau sensitif, maent yn cydfynd â'r hierarchaeth gwastraff a'r egwyddor agosrwydd, ac maent yn darparu gwasanaeth adfer ac ôl-ofal cynhwysfawr ar gyfer y tir fel y gellir gwneud defnydd buddiol ohono unwaith eto.

⁸⁴ Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru, Adroddiad Blynyddol 2014.

8. Sut i Gynnig Sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir

8.1 Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 14 Gorffennaf i 25 Awst, 2017.

8.2 Mae'n rhaid i'r sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir fod ar ffurf ysgrifenedig a chyrraedd y Cyngor Bwrdeistref Sirol erbyn 12 canol dydd, 25 Awst, 2017.

8.3 Caiff yr holl sylwadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau eu cydnabod a'u hystyried; fodd bynnag, ni all y Cyngor warantu y bydd sylwadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu hystyried.

8.4 Mae dogfennau ymgynghori a ffurflenni sylwadau ar gael yn y lleoliadau canlynol:

- ◆ Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
- ◆ Swyddfeydd y Cyngor, Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ
- ◆ Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful, Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8AF
- ◆ Hyb Llyfrgell Merthyr, Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, Merthyr Tudful, CF48 1UT
- ◆ Llyfrgell Treharris, Stryd Perrott, Treharris, Merthyr Tudful, CF46 5ET
- ◆ Llyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3HS
- ◆ Llyfrgell Gymunedol Aberfan, Heol Pantglas, Aberfan, Merthyr Tudful, CF48 4QE

8.5 Neu, gellir eu lawrlwytho o wefan y Cyngor sef www.merthyr.gov.uk neu o Hyb Cwm Taf sef www.cwmtafhub.co.uk

8.6 Gellir naill ai e-bostio'r ffurflenni gorffenedig i: devplanning@merthyr.gov.uk neu eu postio at:

Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad
Adran Cynllunio a Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5, Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

8.7 Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â sut i gyflwyno'ch sylwadau, mae croeso ichi yrru e-bost i gyfeiriad y Tîm Cynllun Datblygu Lleol sef: devplanning@merthyr.gov.uk neu, ffoniwch nhw ar 01685 726279.



Rhestr o Dermau ac Esboniadau

Mae ystyr y termau a ddiffiniwyd yn lleol wedi'u cynnwys isod. O ran y termau a ddiffiniwyd gan ganllawiau cenedlaethol a statudau eraill, fe gyfeirir at eu ffynonellau.

Llwybrau Teithio Byw:	gweler yr ystyr yn adran 2 o Ddeddf Teithio Byw (Cymru) 2013.
Mabwysiadwyd:	gweler yr ystyr yn adran 67 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
Adroddiad Monitro Blynnyddol:	gweler yr ystyr yn adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
Ardaloedd Archeolegol Sensitif:	ardaloedd lle daethpwyd o hyd i nifer fawr o olion archeolegol neu lle amheuwyd bod rhai ar gael yno.
Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin:	adroddiad a baratowyd er sylw'r cyrff ymgynghori penodedig wrth iddynt benderfynu ar gwmpas a manylder yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol: adran 12 (5) o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.
Safleoedd Tir Llwyd:	gweler yr ystyr yn Ffigur 4.4, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9).
Safleoedd Ymgeisiol:	gweler yr ystyr yn Rhestr Termau'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru (Rhifyn 2).
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:	yr holl ardaloedd a weinyddir gan y 10 Awdurdod Unedol yn Neddwyrain Cymru.
Safleoedd Ymrwymedig:	safleoedd sy'n meddu ar ganiatâd cynllunio y gellid ei roi ar waith.
Cyfleusterau cymunedol:	yr union ddiffiniad i'w benderfynu.
Ardoll Seilwaith Cymunedol:	tâl cynllunio a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 fel modd i gynorthwyo awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i ddarparu seilwaith ar gyfer datblygiadau yn eu hardaloedd.
Nwyddau Cymharol:	cynhyrchion y mae defnyddwyr yn eu prynu'n gymharol anaml ac felly'n tueddu i bwyso a mesur eu prisiau.
Datblygiad Masnachol Ategol:	i'w benderfynu yn y 'Cynllun Adneuo'.
Ardaloedd Cadwraeth:	ardaloedd a ddynodwyd fel rhai o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ac sy'n meddu ar gymeriad neu olwg y byddai'n ddymunol eu cadw neu'u gwella.



Nwyddau Cyfleus:	eitemau sydd ar gael yn eang ac a brynir yn aml gydag ychydig iawn o ymdrech.
Cefn Gwlad:	tir o fewn ardal y cynllun, ond y tu allan i ffin anheddiad.
Cytundeb Cyflawni:	cytundeb rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynllun cynnwys cymunedau'r awdurdod cynllunio lleol, a'r amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu cynllun datblygu lleol yr awdurdod.
Adnau:	cynigion manwl y Cyngor ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2016-2031.
Gofynion Anheddau:	nifer y tai newydd sydd angen ei adeiladu i gwrdd â dyheadau demograffig y Cyngor.
Cyflenwad Pum (5) Mlynedd:	cytundeb ynghylch yr union faint o dir sydd ar gael i dai (anheddau sydd ar y gweill neu lle mae'n rhesymol tybio y byddant wedi'u cwblhau o fewn 5 mlynedd) o'i gymharu â'r gofyniad tai sy'n weddill ac a nodwyd yn y CDLI mabwysiedig.
Dylunio Da:	gweler yr ystyr yn Ffigur 4.5, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9).
Gradd A:	ansawdd gorau.
Seilwaith gwyrdd:	y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n britho ac yn cysylltu pentrefi, trefi a dinasoedd. (Y Sefydliad Tirwedd, Isadeiledd Gwyrdd – agwedd gyfannol at ddefnydd tir.)
Nwyon Tŷ Gwydr:	nwy sy'n dal gwres yn yr atmosffer, fel gwydr mewn tŷ gwydr (gan amsugno ac allyrru ymbelydredd o fewn yr ystod is-goch thermol) a thrwy hynny wneud y ddaear yn gynhesach.
Parthau/Ardaloedd Twf:	ardaloedd cynllunio a ddiffiniwyd yn lleol.
Prif Gynefinoedd a Rhywogaethau o Bwys yng Nghymru:	yn unol â'r rhestrau a gyhoeddir ac a gynhelir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
Blaenau'r Cymoedd:	aneddiadau yng nghyrrion gogleddol Cymoedd De Cymru sydd wedi'u cysylltu'n bennaf gan yr A465.
Ardal Adfywio Strategol Hoover:	ardal gynllunio a ddiffiniwyd yn lleol.
Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol:	asesiad cynllun integredig gan gynnwys yr adroddiad amgylcheddol sy'n ofynnol gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.



Cydstudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai:	astudiaeth flynyddol sy'n monitro'r cyflenwad tir ar gael i dai yn y Fwrdeistref Sirol.
Tirwedd:	ystyr tirwedd yw ardal a ganfyddir gan bobl fel un sydd â'i nodweddion yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng elfennau naturiol a/neu ddynol (fel y'i diffinnir gan Gonfensiwn Tirwedd Ewropeaidd, 2000).
Cynllunio Defnydd Tir:	y term cyffredinol ar gyfer cynllunio trefol sy'n ceisio trefnu a rheoleiddio'r modd y caiff tir ei ddefnyddio mewn ffordd effeithlon a moesegol, a thrwy hynny atal unrhyw wrthdaro sy'n ymwneud â defnydd tir.
Gweithgorau a Grwpiau Llywio'r CDLI:	cyfarfodydd o gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol ac eraill (gweler y cytundeb cyflawni) sy'n cwrdd er mwyn llywio'r strategaeth a ffefrir a chanfod strategaethau ac opsiynau eraill.
Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ar Raddfa'r Awdurdodau Lleol a Llai na Graddfa'r Awdurdodau Lleol:	gweler yr ystyr yn Ffigur 12.2, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9).
Canolfan Leol:	ardal gynllunio a ddiffiniwyd yn lleol.
Cynllun Datblygu Lleol:	diffiniwyd ei ystyr gan adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
Gwarchodfeydd Natur Lleol:	diffiniwyd ei ystyr gan adran 15 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
Awdurdod Cynllunio Lleol:	diffiniwyd ei ystyr gan adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).
Cynllun Llesiant Lleol:	diffiniwyd ei ystyr yn rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
MWe:	sef megawat trydan, uned o drydan a allbynnir gan y seilwaith cynhyrchu pŵer.
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:	Bydd yr NDF yn nodi polisiâu Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a defnyddio tir mewn cyd-destun gofodol, ac yn disodli Cynllun Gofodol Cymru.
Safle Natura 2000:	ardal gwarchod natur yn nhiriogaeth yr Undeb Ewropeaidd, naill ai Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd neu'r Gyfarwyddeb Adar.



Cyfalaf Naturiol yr Amgylchedd:	stoc o adnoddau naturiol, sy'n cynnwys daeareg, priddoedd, aer, dŵr a phob organeb byw.
Mannau agored:	sef y rhai a nodwyd yn Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful 2016.
Ardal y Cynllun:	sef Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac eithrio'r darn sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Cyfnod y Cynllun:	sef o 1 Ebrill, 2016, hyd 31 Mawrth, 2031.
Yr Arolygiaeth Gynllunio:	asiantaeth weithredol a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n ymdrin ag apeliadau cynllunio, ceisiadau cynllunio seilwaith cenedlaethol, archwiliadau o gynlluniau lleol, ac unrhyw waith achos arall sy'n ymwneud â chynllunio a materion arbenigol.
Popgroup:	pecyn meddalwedd sydd wedi'i ddatblygu i ragweld poblogaeth, aelwydydd ac anheddau o fewn ardaloedd. Mae'n dyblygu amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru, ac yn caniatáu defnyddwyr i ddatblygu gwahanol senarios dan arweiniad polisi ac i droi unrhyw newid o ran aelwydydd i'r galw am gartrefi.
Strategaeth a Ffefrir:	sef y dull a ffefrir gan y Cyngor i ymdrin â thwf y Fwrdeistref Sirol hyd at 2031.
Prif Anheddiad Allweddol:	fel y nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru.
Adroddiad yr Adolygiad:	adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol.
Cytundebau Adran 106:	cytundebau preifat a wneir rhwng awdurdodau lleol a datblygwyr yw'r rhain, ac fe'u rhoir ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio i wneud datblygiad annerbyniol yn dderbyniol yng nghyswllt cynllunio.
Ffin anheddiad:	sef ffin y mae'r Cyngor wedi'i hamlinellu'n glir i hyrwyddo'r defnydd llawn ac effeithiol o dir trefol ac i atal datblygiadau amhriodol yng nghefn gwlad.
Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur:	mannau a nodwyd yn yr ardal leol fel rhai o bwys i gadwraeth natur.
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:	mannau cadwraeth yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u dynodi'n ardaloedd gwarchodedig.
Metro De Cymru:	y cynnig i integreiddio a datblygu gwasanaethau a systemau cludiant cyhoeddus yn Ne-ddwyrain Cymru o ran rheilffyrdd trwm, rheilffyrdd ysgafn a bysiau.
Ardaloedd Tirwedd Arbennig:	ardaloedd lleol sy'n meddu ar nodweddion tirwedd o bwys.



Canllawiau Cynllunio Atodol:	gwybodaeth atodol mewn perthynas â pholisïau'r CDLI. Nid yw'r Cynlluniau hyn yn rhan o'r CDLI ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol ychwaith ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r CDLI a'r polisi cynllunio cenedlaethol.
Amcan Cynaliadwyedd:	amcan a ddiffiniwyd yn lleol at ddibenion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol.
Datblygu Cynaliadwy:	fel y'i diffiniwyd yn adran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Profion Cadernid:	er mwyn i'r CDLI gael ei fabwysiadu, mae'n rhaid i Arolygydd yr Archwiliad ei ddyfarnu fel un 'cadarn' (adran 64 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004). Mae'r profion cadernid a'r gwiriadau wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (pennod 2) a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (pennod 8).
Ardaloedd Cymeriad Trefol:	fel y'u diffiniwyd yn Astudiaeth CADW: Merthyr Tudful – Deall Nodweddion Trefol.
Datganiad Llesiant:	fel y'i diffiniwyd yn adran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).



